46. Dewiswyd safle'r cais o ganlyniad i'w agosrwydd i seilwaith y grid a hwylustod cysylltu ag ef, ac oherwydd ei fod yn llain fawr o dir cyffiniol, sy'n ei wneud yn fasnachol hyfyw ac yn golygu y gellir gweithredu mesurau lliniaru ecolegol ar safleoedd cyfagos. Yn weledol, mae'r safle wedi'i ffinio gan wrychoedd sydd mewn cyflwr da, sy'n caniatáu ar gyfer sgrinio o olygfeydd lleol. Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth a llwybrau mynediad i'r safle yn addas i hwyluso adeiladu, ac mae gan y safle ddwy fynedfa sy'n hwyluso adeiladu, yn ogystal â mynediad gweithredol. Mae'r safle'n eiddo i un perchennog. Mae'r safle'n hen waith glo brig a adferwyd yn wael, ac mae ffrwythlondeb y pridd yn wael iawn o ganlyniad. Mae'r safle'n darparu cyfle i reoli a gwella ardaloedd coetir nesaf at y safle.

47. Mireiniwyd y gosodiad arfaethedig trwy werthuso cyfyngiadau'r safle trwy gyfuniad o asesiadau technegol ac ymgysylltu ag ymgyngoreion. Mae proses yr ES wedi dylanwadu ar y broses ddylunio ailadroddus ac amlygu effeithiau amgylcheddol, gan arwain at gyfle i ddarparu cynllun adnewyddadwy 40MW ac ardaloedd gwella cynefin.

Lliniaru oddi ar y safle

48. Bydd yr ardaloedd lliniaru oddi ar y safle i wneud iawn am ddadleoli cornchwiglod/ehedyddion yn cael eu darparu trwy Gytundeb Adran 106.

Cornchwiglod

49. Ceisiodd y pâr o gornchwiglod fridio i'r de o'r safle, ond methodd hyn o ganlyniad i ysglyfaethu naturiol o bosibl, a symudodd y pâr i ran ddeheuol gyfagos y safle. Gan eu bod yn ffyddlon i safle, disgwylir i'r pâr fridio yn y lleoliad cyntaf, ac ni fyddai'r datblygiad yn effeithio ar y lleoliad hwn. Ynghyd â mesurau gwella, byddai hyn yn darparu cyfleoedd gwell i chwilota am fwyd ar gyfer unrhyw bâr o gornchwiglod i'r de o'r safle.

50. Mae'r cynnig i ddarparu cynefin oddi ar y safle sy'n debyg i'r safle nythu dewis cyntaf yn gwella gwerth bioamrywiaeth fel safle nythu ychwanegol yn y dyfodol. Ynghyd â gwella adnoddau chwilota am fwyd ar y safle, ystyriwyd bod hyn yn dderbyniol. Dewiswyd y mesurau lliniaru oddi ar y safle o ganlyniad i agosrwydd a thebygrwydd cynefin. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o'r farn y dylai'r mesurau lliniaru/rheolaeth oddi ar y safle gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y caeau'n cael eu defnyddio gan gornchwiglod.

Ehedyddion

51. Cofnodwyd un diriogaeth fridio wedi'i chadarnhau, dwy debygol ac un bosibl ar gyfer y rhywogaeth. Gallai'r mesurau lliniaru oddi ar y safle gynnal tair tiriogaeth ar gyfer ehedyddion. Byddai'r gwelliant ar y safle o ran rhywogaethau planhigion glaswelltir ac amrywiaeth adeiladwaith y borfa, prysgwydd, gwrychoedd, a choetir yn cynyddu chwilota am fwyd yn ystod y cyfnodau bridio a gaeafu.

52. Asesir bod gwerth ecolegol y safle i ehedyddion yn lleol ac asesir bod effaith ecolegol y cynnig o arwyddocâd niweidiol bach. Byddai angen lleihau nifer y paneli solar er mwyn cynnal ehedyddion ar y safle. Byddai angen lleiafswm o 16m² fesul safle nythu a llain glustogi ragofalus o 10-15 metr, gan arwain at leihau'r safle paneli solar hyd at 576-1156m² fesul safle nythu gydag ardal wahanu 50 metr yn angenrheidiol oddi wrth goetir cyffiniol. Y mesurau lliniaru oddi ar y safle a'r gwelliannau ar y safle yw'r strategaeth fwyaf priodol.

Goblygiadau polisi PPW

53. Mae'r strategaeth liniaru ar gyfer y datblygiad yn ystyried ymagwedd fesul cam PPW, Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fframwaith DECCA a'r gofynion budd net i fioamrywiaeth a chwe amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, sy'n cynnwys rheoli rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn yn well.

54. Mae'r cynnig yn cynnwys plannu prysgwydd a newidiadau i reolaeth glaswelltiroedd, a gwella terfynau caeau/gwrychoedd i wella amrywiaeth adnoddau ar gyfer rhywogaethau ar y safle. Trwy ddarparu coridorau cynefin sy'n fwy tal, llydan a thrwchus, amodau cysgodol a rheolaeth ecolegol wedi'i chyfoethogi, byddai hyn yn gwella cadernid rhywogaethau yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, yn datblygu cysylltedd ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd, ac yn darparu lleiniau clustogi cysgodol ar gyrion coetiroedd. Byddai rheoli tir yn llai dwys yn gwella amrywiaeth rhywogaethau planhigion glaswelltir, ac yn gwella cysylltedd a chwilota am fwyd i amrywiaeth o rywogaethau.

55. Bydd y mesurau cynefin yn cael eu gweithredu drwy gydol cam gweithredol y datblygiad yn unol â'r cynllun rheoli tirwedd ac amgylcheddol (LEMP). Byddai'r LEMP yn cynnwys amcanion a methodoleg creu, gwella a rheoli cynefin drwy gydol y cam adeiladu a cham gweithredol y cynllun, gan gadarnhau cyfrifoldebau a gofynion monitro a gwneud addasiadau i'r cynllun fel y gellir gwneud newidiadau i reolaeth barhaus ar gynefin.

56. Gan fod y safle gerllaw SINC a Thir Comin, byddai hyn yn darparu ardal sylweddol o gynefin wedi'i wella gyda choridorau cynefin gwell ar draws y safle, gan gynorthwyo rhywogaethau i symud o gwmpas. Byddai hyn yn gwella gwerth ecolegol y SINC.

Sylwadau'r ymgeisydd ar benderfyniadau Gweinidogol diweddar ynglŷn â datblygiadau Gwynllŵg a Rush Wall

57. Mae'r safle datblygu'n wahanol i'r achosion uchod oherwydd ei fod yn osgoi colli safleoedd dynodedig, a bydd mesurau lliniaru cynefin ar y safle'n gwella gwerth ecolegol safleoedd dynodedig cyfagos. Byddai'r cynnig yn ymestyn yr ardal gwerth ecolegol trwy ddarparu safleoedd lliniaru y tu allan i'r safleoedd dynodedig.

58. Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at reolaeth tymor hir a'r mesurau lliniaru ecolegol trwy'r CEMP a'r LEMP fel yr amlinellir uchod.

59. Mae'r cynnig wedi defnyddio'r ymagwedd hierarchaeth liniaru ac yn cyd-fynd â'r fframwaith DECCA.

Llifogydd a hydroleg

60. Trwy gyfeirio at y Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) ar gyfer Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach, gwelir bod y safle'n bennaf o fewn ardaloedd nad ydynt o fewn parth llifogydd dangosol, sy'n golygu bod y safle o fewn ardal â thebygolrwydd llai na 0.1% o lifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb mewn blwyddyn benodol, sy'n cynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

61. Mae'r safle ym mharth A Mapiau Cyngor Datblygu CNC. Yn yr FMfP, mae'r safle o fewn parth llifogydd 1 ac nid yw llifogydd o'r holl ffynonellau eraill cysylltiedig yn effeithio arno'n sylweddol.

Gosodiad y cyfadeilad adeiladu a batris a llwybr ceblau

62. Darperir gosodiad y cyfadeilad is-orsaf a batris ynghyd â manylion deunyddiau arwyneb, goleuadau, ffensys a CCTV. Mae'r cynllun yn dangos y math a'r trefniant cyffredinol.

63. Mae'r ymgeisydd yn darparu'r cynllun llwybr grid tanddaear dangosol i'r is-orsaf o ffin llinell goch y safle. Nid yw hyn yn rhan o'r cynnig ac ni cheisir cydsyniad eilaidd ar ei gyfer o dan y cais hwn.

Amodau a Rhwymedigaethau

64. Llofnodwyd Cytundeb Adran 106 ar 19 Gorffennaf 2024. Mae'r Cyngor, y tirfeddiannwr a'r datblygwr wedi llofnodi'r Cytundeb. Cyflwynwyd rhestr o amodau cynllunio cytunedig i'w hystyried.

Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

65. Mae'r canlynol yn grynodeb o Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) y Cyngor.

66. Fel trosolwg, mae'r LIR yn nodi mai dogfen ffeithiol ydyw na ddylai bwyso a mesur tystiolaeth na gwneud argymhellion, ond yn hytrach datgan p'un a ddisgwylir i effeithiau fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral. Mae'r LIR yn disgrifio'r safle, yr amgylchoedd a dynodiadau lleol. Mae'n disgrifio'r datblygiad arfaethedig, hanes cynllunio a pholisïau datblygu lleol a oedd yn ymwneud â CDLl 2013 yn fanwl. Fel yr esboniwyd, darparodd restr wedi'i diweddaru o bolisïau ar gyfer CDLl 2018-2033, sydd mewn grym bellach.

67. Yn yr un modd ag achos yr ymgeisydd, rwyf wedi crynhoi prif agweddau'r LIR gan ystyried y materion penderfynol a gynhwyswyd yn yr arfarniad o'r adroddiad hwn.

68. Mae'r LIR yn cyfeirio at SPG 20 gan ystyried ardal cymeriad tirwedd 9 Tir Comin Hirwaun a'r Cefnennau Amgylchynol. Mae'r LIR yn nodi sensitifrwydd uchel y dirwedd yn nhermau cronnol o gymharu â maint y datblygiad a'r math o ddatblygiad, ac y byddai

angen i'r casgliad gael ei gydbwyso yn erbyn rhinweddau'r cynnig. Mae'n cydnabod yn y cydbwysedd hwn y ffynhonnell sylweddol o gyfraniad ynni adnewyddadwy y byddai'r cynnig yn ei wneud at dargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yng Nghymru'r Dyfodol.

69. Mae'r LIR yn nodi bod yr ES wedi amlygu a mynd i'r afael â'r adnodd tirwedd a gweledol presennol o fewn yr ardal astudio 5 km ac yn cytuno â'r golygfannau a ddewiswyd sy'n deillio o'r Parth Gweledededd Damcaniaethol (ZTV) sydd wedi llywio'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA). Mae'n nodi bod yr ES yn cynnwys mesurau a ddyluniwyd i leihau neu osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y dirwedd ac yn weledol, yn enwedig o hawliau tramwy cyfagos.

Yr effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd

70. Mae'r LIR yn nodi bod eiddo preswyl o amgylch y safle a bod golygfeydd uniongyrchol o'r safle wedi'u cyfyngu i'r rhai hynny sydd agosaf iddo, gan gynnwys gyrwyr, beicwyr achlysurol, cerddwyr sy'n defnyddio'r PRoW, a golygfeydd o eiddo preswyl. Gan fod y cynnig yn nodwedd newydd yn y dirwedd, gellid ei sgrinio'n addas trwy blannu tirweddol. Byddai'r mesurau a gynigiwyd yn lleihau'r effaith gyffredinol ar y dirwedd ac yn weledol yn llwyddiannus.

71. Mae'r LIR yn derbyn y byddai cerddwyr yn profi effeithiau niweidiol arwyddocaol dros dro ar olygfeydd o'r PRoW (CYH/55/1) a fyddai'n cael ei chau neu ei wyro dros dro yn ystod adeiladu. Byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar olygfeydd o'r PRoW sy'n mynd trwy safle'r cais, ond byddai plannu tirweddol yn lliniaru'r effaith yn y tymor hwy pan fyddai wedi sefydlu.

72. Mae'r LIR yn nodi y byddai graddfa ac uchder cyfyngedig y nodweddion newydd yn y dirwedd amaethyddol hon yn cyfyngu ar unrhyw newidiadau amlwg yn y dirwedd, hefyd.

Priffyrdd

73. Mae'r LIR yn nodi bod y cam adeiladu'n debygol o fod dros gyfnod o oddeutu 12 i 18 mis ac y bydd symudiadau cerbydol at ddibenion cynnal a chadw yn lleiafsymiol wedi hynny. Ystyrir bod y llwybr ar gyfer traffig adeiladu yn briodol, gan fod cerbydau'n annhebygol o gyfarfod â cherbydau mawr sy'n mynd i ffatri Rockwool.

74. Fodd bynnag, mae'r fynedfa tua'r gogledd o'r B4280 ar hyd Heol Laethog yn achosi pryder. Honnir bod y fynedfa y tu allan i ffin safle'r cais, sy'n golygu ei bod yn anodd gosod amod cynllunio.

75. Mae gan Heol Laethog derfyn pwysau o 7.6 o dunelli ar ei phen deheuol. Nodir y cynigir defnyddio cerbydau danfoniadau a cherbydau adeiladu mawr. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i gyfanrwydd strwythurol y bont ar ben deheuol Heol Laethog neu, fel arall, bydd angen i ddanfoniadau ac offer gael eu rhannu'n llwythi llai neu eu danfon trwy fynedfa amgen.

76. Mae lled Heol Laethog yn gyfyngedig, yn enwedig wrth y bont ac yng nghyffiniau'r gyffordd â'r B4280, a allai arwain at wrthdaro posibl â cherbydau yn ystod y cam adeiladu. Bydd angen cyflwyno dulliau o leihau'r gwrthdaro hwn i'w hystyried ymhellach. Er yr awgrymwyd goleuadau dros dro, byddai hyn yn gofyn am ddigon o led i gerbydau fynd heibio yn y man lle y darperir y goleuadau. O ystyried lled Heol Laethog a thir trydydd parti y tu hwnt i'r ffordd gerbydau, mae'n bosibl na fydd hyn yn ymarferol oherwydd efallai na fydd modd cyflawni baeau mynd heibio.

77. Mae'n bosibl y bydd angen mynedfa a llwybr amgen i oresgyn yr angen am reolaeth draffig dros dro sylweddol, a/neu gynllun rheoli cyflawni manwl o fewn yr amod ynghylch CTMP.

78. Er gwaethaf yr uchod, mae'r fferm solar arfaethedig yn defnyddio tir sy'n cynnwys tair ardal tomen lo etifeddol. Archwilir y rhain gan yr Awdurdod Priffyrdd, ac nid yw'n glir o'r cyflwyniad sut bydd y cynnig yn effeithio ar yr ardaloedd hyn o ran sefydlogrwydd neu fynediad at ddibenion archwilio, yn ystod ac yn dilyn y cam adeiladu. Ni ystyrir bod hyn yn effeithio ar ddiogelwch a chapasiti'r rhwydwaith priffyrdd, ond bydd angen ei drafod ymhellach er mwyn sicrhau nad yw'r cynnig yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Ecoleg

79. Ategir y cais ar gyfer y cynnig gan gyfres o arolygon ecolegol sylfaenol a lywiodd yr asesiad o'r effaith ecolegol. Cefnogir y mesurau a'r argymhellion lliniaru ecolegol arfaethedig, gan gynnwys y CEMP a'r LEMP, a dylid eu cynnwys yn yr amodau cymeradwyo ynghyd â pharatoi cynllun tirweddu.

80. Dylai'r ymgeisydd hefyd gadw gwasanaethau ei ecolegydd ar sail ar alwad os bydd mater ecolegol yn codi yn ystod gwaith gweithredu. Byddai'r cynllun tirweddu ecolegol a chadw'r arbenigedd ecolegol yn helpu i gydymffurfio ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau bod hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio hybu cadernid ecosystemau. Mae'r wybodaeth yn ddigonol i benderfynu ar y cais cynllunio.

Tir amaethyddol

81. Mae rhagdybiaeth bolisi o blaid cadw tir amaethyddol BMV. Cadarnhawyd bod llawer o'r tir sy'n ffurfio'r safle yn dir Gradd 3b. Mae'r cais yn ceisio caniatâd am 50 mlynedd, ac wedi hynny byddai'r safle'n cael ei adfer yn ôl i'w ddefnydd amaethyddol presennol. Bydd effaith y cynnig yn negyddol o ran potensial amaethyddol ar hyd oes y datblygiad gan y bydd y tir yn cael ei golli at ddefnydd amaethyddol yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r effaith yn debygol o fod yn niwtral yn y tymor hir yn amodol ar adfer y safle'n effeithiol er mwyn sicrhau nad yw gwerth y tir yn cael ei leihau'n sylweddol. Ystyrir y gallai hyn gael ei sicrhau trwy amod wedi'i eirio'n briodol. Byddai angen i golli'r tir amaethyddol cymedrol hwn dros y cyfnod gweithredu 50 mlynedd gael ei gydbwyso yn erbyn yr angen i ddarparu ffynhonnell bŵer i'r grid cenedlaethol.

Treftadaeth

82. Nid yw'r safle o fewn unrhyw ddynodiadau treftadaeth ac mae wedi'i leoli mewn man lle y byddai'r cynnig yn cael effaith gyfyngedig iawn ar fuddiannau treftadaeth yn yr ardal amgylchynol ar ffurf henebion cofrestredig. Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno na ddisgwylir unrhyw effeithiau archaeolegol yn ystod y cam gweithredol ac felly na fyddai angen mesurau lliniaru ychwanegol. Fodd bynnag, yn dibynnu ar raddau mesurau lliniaru cyn-adeiladu, mae'n bosibl y bydd angen rhaglenni monitro archaeolegol ar ffurf briff gwylio yn ystod adeiladu, er ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw adnoddau archaeolegol arwyddocaol yn cael eu canfod o fewn y safle.

Crynodeb

83. At ei gilydd, ystyrir y byddai effaith y datblygiad ar amwynder preswylwyr cymdogol, y gymuned leol a'r dirwedd yn niwtral.

84. Gellir meddalu effaith weledol y datblygiad gan dirweddu priodol, ac ystyrir na fyddai'r datblygiad, oherwydd ei natur, yn cael effaith arwyddocaol ar fuddiannau bywyd gwyllt, iechyd pobl na diogelwch ar y priffyrdd, yn enwedig ar ôl y cam adeiladu cychwynnol.

85. Byddai'r datblygiad yn sicrhau darpariaeth bŵer, ac ystyrir bod hyn yn drech nag effeithiau byrhoedlog oherwydd cynigir defnyddio'r tir i sicrhau ffynhonnell gynaliadwy o ynni adnewyddadwy. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn un dros dro yn unig hefyd, a gellir dychwelyd y tir i'w ddefnydd amaethyddol ar ôl y cyfnod 50 mlynedd.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

86. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd, wedi'u diweddaru fel y bo'n briodol yng ngoleuni gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn ystod yr archwiliad.

Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf

87. Mae'r llwybr a awgrymwyd ar gyfer traffig adeiladu o gyffordd 36 yr M4 yn dderbyniol, ond byddai'n gwrthwynebu pe byddai'r llwybr yn cael ei newid i gyffordd 35 yr M4.

Cyngor Cymuned Llansanffraid

88. Mynegwyd pryderon ynglŷn â llwybr traffig o gyffordd 36 yr M4 i ymuno â Heol Laethog.

Maes Awyr Caerdydd

89. Ni fynegwyd unrhyw bryderon.

Dŵr Cymru

90. Dim gwrthwynebiad; cyngor sefydlog yn unig.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

91. Dim gwrthwynebiad.

Yr Uned Draenio Tir – Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

92. Bydd angen i Systemau Draenio Cynaliadwy gael eu cymeradwyo gan y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) cyn i waith adeiladu ddechrau. Fodd bynnag, mae'n gofyn i amodau cynllunio gael eu gosod ar waredu dŵr budr a dŵr wyneb o'r safle.

Cadw

93. O ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr ES (Pennod 8), byddai effeithiau ar asedau hanesyddol dynodedig yn ddibwys/bach iawn ar leoliad yr heneb gofrestredig Gwersyll Cwm Llwyd, ac ni fyddai effeithiau arwyddocaol ar unrhyw asedau hanesyddol dynodedig. Mae Cadw yn cytuno â chasgliadau'r ES ynglŷn â threftadaeth ac nid yw'n gwrthwynebu.

Cyfoeth Naturiol Cymru

94. Mynegwyd pryderon; fodd bynnag, gellir goresgyn y rhain trwy atodi amodau i unrhyw ganiatâd cynllunio. Byddai CNC yn gwrthwynebu heb yr amodau awgrymedig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

    - Amod ynglŷn â CEMP.
    - Amod ynglŷn â LEMP.
    - Mae CNC yn fodlon ar y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ynglŷn ag adareg, pathewod a rhywogaethau eraill a warchodir, y lleiniau clustogi ehangach ar gyfer gwrychoedd, a faint o waith arolygu a wnaed. Er na ddarparwyd arolwg adar nos, mae CNC o'r farn bod cyfleoedd nythu cyfyngedig ar y safle.

- Cynhaliwyd yr arolygon adar sy'n bridio ac yn gaeafu yn unol â'r dull priodol a chydag ymdrech briodol, ac mae CNC yn cytuno â'u canfyddiadau. Dylai'r ardal liniaru oddi ar y safle a'r rheolaeth arfaethedig gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y caeau'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau.
- Mae'r cynnig yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau ar safleoedd a warchodir yn y cyffiniau. Mae'r safle y tu allan i'r dirwedd swyddogaethol ar gyfer Britheg y Gors sy'n gysylltiedig â SoDdGA Brynna a Wern Tarw. Mae safle'r cynnig yn annhebygol o gynnwys llwybr i niweidio ACA a SoDdGA Coed Blackmill neu ei nodweddion.

Hawliau Tramwy a Mynediad (RoWA) – Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

95. Mae RoWA yn nodi y bydd yr ymgeisydd yn gwneud cais i wyro llwybr troed 55. Manylwyd ar hyn yn ymateb yr ymgeisydd ym mis Mawrth 2024 (eitem 10). Roedd yr ymateb i eitem 10 yn cynnwys cynllun gwyro arfaethedig ar gyfer y llwybr troed. Bydd y cais i wyro'r llwybr troed yn cael i ystyried ar wahân i'r cais DNS.

96. Mae RoWA yn fodlon i'r llwybr caniataol arfaethedig a ddangosir ar y cynllun gael ei weithredu hyd nes y cytunir ar y cais i wyro, ond, yn y cyfamser, mae'n nodi na ddylid gwrthod mynediad i'r cyhoedd ar hyd aliniad diffiniol y llwybr troed.

Yr Awdurdod Glo

97. Nid yw'n gwrthwynebu'r cais arfaethedig yn ddarostyngedig i amodau wedi'u geirio'n briodol i'w gosod ar y caniatâd.

Y Grid Cenedlaethol

98. Nid yw'n gwrthwynebu'r cynnig.

Partïon eraill â buddiant

99. Derbyniwyd rhyw 14 o lythyrau gwrthwynebu i gyd.

100. Mae materion allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Ecoleg – pryder ynghylch cadernid/methodoleg/dyddiad gwaith arolygu/risg sylweddol i rywogaethau cornchwiglod ac ehedyddion ar y rhestr goch ac oren, teloriaid yr helyg, anghytuno ag ymateb CNC
- Gwrthdaro posibl rhwng yr ardaloedd lliniaru yn y Cytundeb Adran 106 a'r llwybr mynediad arfaethedig i fferm wynt Mynydd y Gaer
- Pryder ynghylch effeithiolrwydd tebygol yr ardaloedd lliniaru gan fod cornchwiglod yn ffyddlon i safle. Pryderon ynghylch effeithiolrwydd/llwyddiant tir lliniaru mewn perthynas â rhywogaethau a warchodir o ganlyniad i fynediad a diogelwch ar Dir Comin
- Safleoedd amgen – yn fwy addas i'r cynnig hwn, yn arbennig, tir a ddatblygwyd yn flaenorol
- Traffig, priffyrdd a diogelwch cerddwyr – addasrwydd y llwybr mynediad ar gyfer traffig adeiladu o gyffordd 36 yr M4 gan fod tagfeydd yno a'i bod heb ei hasesu, mae cyffordd 35 yn fwy addas, byddai gwrthwynebiadau'n cael eu gwneud pe byddai'r llwybr yn cael ei newid i gyffordd 35
- Mynediad amgen ar gyfer traffig adeiladu sy'n fwy addas, fel defnyddio mynedfa Glyntawel. Mae diogelwch gyrwyr yn achos pryder o ganlyniad i heulwen y bore a allai achosi gwrthdaro â thraffig adeiladu arfaethedig ar bont gul o led un car

- Pryderon diogelwch i gael mynediad i'r maes chwarae cyfagos
- Pryderon sŵn ac aflonyddu
- Perygl llifogydd o gaeau i'r B4280
- Colli caeau amaethyddol i gynhyrchu bwyd
- Rhwystro hawliau tramwy cyhoeddus
- Effaith ar lwybrau ceffylau, niwed i feicwyr a cherddwyr
- Llygredd golau – byddai meddianwyr Railway Terrace yn dioddef llygredd golau o gerbydau
- Absenoldeb budd cymunedol
- Diffyg tryloywder
- Dibrisio eiddo
- Ymwthiad gweledol o'r datblygiad ar feddianwyr tai cyffiniol
- Cais am balmant newydd er diogelwch cerddwyr
- Absenoldeb gwybodaeth am leoliad y cysylltiad â'r grid a'r dull cysylltu â'r grid
- GIS – diffyg arfarniad o'r opsiynau, dim safle priodol wedi'i ddethol, dylid defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn lle safle'r cais, absenoldeb arolwg adar nos, dim ffynhonnell sy'n dyfynnu arbediad carbon, dim ffermio âr yn cael ei wneud, buddion a grybwyllwyd ynghylch llai o blaleiddiaid/maethynnau wedi'u gorddatgan, niwed i adar sy'n nythu ar y tir a'u dadleoli, dim gwelliant ystyrlon, ac amheuaeth ynghylch honiadau a wnaed ynglŷn â chyfradd lwyddiant ardaloedd lliniaru gan gyfeirio at gynlluniau solar gwastadeddau Gwent

Arfarniad

101. Y prif ystyriaethau yw:

- effaith y cynnig ar ecoleg yr ardal a rhywogaethau a warchodir, a'r
- effaith ar gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol yr ardal, a'r
- effaith ar ddiogelwch cerddwyr a diogelwch ar y priffyrdd, a
- ph'un a yw unrhyw niwed a amlygir mewn perthynas â'r ystyriaethau uchod yn cael ei wrthbwyso gan fuddion y cynllun, ei gyfraniad at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Ecoleg

Dynodiadau

102. Nid yw safle'r cais o fewn safle ecolegol a ddynodwyd yn genedlaethol nac yn rhyngwladol. Mae ACA Pwll a Thwyni Cynffig tua 13km i'r de-orllewin. Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Cwningar Merthyr Mawr tua 9.4km i'r de-orllewin. Mae ACA a SoDdGA Coed Blackmill 1km i'r gogledd ac mae SoDdGA Brynna a Wern Tarw ychydig dros 2km i'r dwyrain. Mae ACA a SoDdGA Coed y Mwstwr ar ochr ddeheuol yr M4 rhyw 3.1km i'r de-ddwyrain.

103. Nid oes unrhyw lwybrau i'r datblygiad arfaethedig achosi difrod i ACA a SoDdGA Coed Blackmill, SoDdGA Brynna a Wern Tarw a'r safleoedd dynodedig ymhellach i ffwrdd. Mae hyn oherwydd nodweddion y tir a phellter. Mae safle'r cais y tu allan i dirwedd swyddogaethol nodweddion nodedig ar gyfer y dynodiadau hyn.

104. Mae CNC yn nodi bod y datblygiad arfaethedig yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau ar safleoedd a warchodir. Mae'r ES yn nodi na ddisgwylir effaith ar safleoedd na'u nodweddion cymwys, ac na fyddai'r prosiect yn newid maint ac arwyddocâd effeithiau.

105. Nid oes gennyf reswm i anghytuno ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Rwyf yn fodlon na fyddai effeithiau niweidiol ar y safleoedd dynodedig hyn. Nid oes angen Asesiad Priodol yn yr amgylchiadau hyn gan fod effeithiau arwyddocaol ar safle Ewropeaidd yn annhebygol. Mae'r cynnig yn osgoi'r safleoedd dynodedig hyn ac nid yw paragraff 6.4.15 1b) PPW yn berthnasol.

106. Mae llain o Goetir Hynafol yng nghanol y safle. Mae ardaloedd o Goetir Hynafol yn union gerllaw'r safle ac yn gorgyffwrdd â rhan fach o ffin ddwyreiniol safle'r cais. Mae SINC Dre-Fach yn cynnwys dwy lain o Goetir Hynafol hefyd. Byddai gosodiad arfaethedig yr araeau solar, yr is-orsaf, y llawr caled a'r seilwaith, a'r ardaloedd gwaith adeiladu cysylltiedig y tu allan i lain glustogi 15 metr a ddyluniwyd i liniaru'r datblygiad o amgylch y llain ganolog o Goetir Hynafol a safleoedd Coetir Hynafol cyfagos. Gan fod y cyfleuster batris storio a'r is-orsaf wedi'u dangos ar ffurf ddangosol, rheolir y materion hyn ymhellach gan amodau cynllunio. Felly, gall yr awdurdod cynllunio lleol reoli'r union fanylion a lleoliad i sicrhau gwahaniad digonol y tu allan i'r llain glustogi 15 metr arfaethedig.

107. Amlinellir y mesurau lliniaru a'r gwelliannau ar y safle ac oddi ar y safle yn Strategaeth Lliniaru Ecolegol yr ES (Ffigur 7.4 lluniad TW3-6a a 7.4ii Cyfrol 2 Ffigurau). Mae'r rhwymedigaeth gynllunio'n diffinio ac yn sicrhau'r ardaloedd oddi ar y safle trwy'r cynllun sy'n eu hadnabod. Byddai darparu'r mesurau lliniaru ar y safle ac oddi ar y safle yn cael ei sicrhau gan y rhwymedigaethau cynllunio/amodau cynllunio ar ffurf amodau cynllunio LEMP a CEMP. Mae'r tirfeddiannwr/datblygwr/Cyngor oll wedi llofnodi'r rhwymedigaeth gynllunio sy'n ceisio cyflwyno'r tir ac sy'n rhoi manylion y meini prawf ar gyfer rheoli tir yn y dyfodol ar y cyd â'r LEMP ar hyd oes y datblygiad. Yn eu tro, mae'r LEMP/CEMP yn rheoli'r materion hyn ymhellach, sy'n gofyn am gymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol cyn y gellir dechrau'r datblygiad.

108. Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio strategaeth oleuadau briodol sy'n lleihau gollyngiadau golau gymaint â phosibl, a weithredir trwy'r amod CEMP. Y strategaeth ecolegol fyddai cynnal ymylon glaswellt twmpathog wrth ochr y coetiroedd a rheoli absenoldeb chwynladdwyr.

109. Gyda'r mesurau hyn mewn golwg, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig a'i leiniau clustogi'n tresmasu ar y cynefin (Coetir Hynafol a SINC Dre-Fach), fel y rhagwelir gan baragraff 6.4.15 1b) PPW a'r enghreifftiau o gynefin y cyfeirir atynt yn nhroednodyn 129.

110. Mae paragraff 7.5.4 Pennod 7 yr ES yn nodi bod safle'r cais yn gorgyffwrdd ychydig â SINC Dre-Fach. Mae SINC Dre-Fach a SINC Blaencrymlyn i'r gogledd o Dre-Fach yn safleoedd anstatudol a warchodir. Mae PPW yn argymell defnyddio ymagwedd ragofalus mewn perthynas â pharagraff 6.4.15 1a) (yr ymagwedd fesul cam) a Ffigur 13: Safleoedd Dynodedig.

111. Mae PPW yn nodi mai'r brif flaenoriaeth i awdurdodau cynllunio yw osgoi niwed i fioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf (h.y. amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd a pha mor doreithiog ydynt) a gweithrediad ecosystem. Mae PPW yn datgan, pan fydd effeithiau amgylcheddol niweidiol yn bosibl, bydd angen i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon bod unrhyw safleoedd amgen rhesymol (gan gynnwys opsiynau lleoli a dylunio amgen) a fyddai'n arwain at lai o niwed, dim niwed neu fudd, wedi cael eu hystyried yn llawn.

Defnyddio'r ymagwedd fesul cam

112. Mae Adran 3.3 yr ES yn amlinellu'r safleoedd amgen a ystyriwyd yn y broses ddethol. Ategwyd hyn gan ymatebion i'r penderfyniad ar gyflawnder yr ES cyn dilysu'r cais cynllunio. Roedd hyn yn cynnwys Asesiad o'r ES, y REDP, lluniad Asesu Safleoedd Amgen a thabl Cymharu. Yn ystod y cais cynllunio ac oherwydd newidiadau i PPW, roedd defnyddio'r ymagwedd fesul cam a'r angen am GIS wedi cynyddu pwysigrwydd osgoi niwed i fioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf a chymhwyso Dyletswydd Adran 6: Fframwaith DECCA Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

113. Mae'r ymgeisydd wedi egluro'r sail resymegol dros ddethol y safle a gofynion dylunio a lleoliadol dilynol y datblygiad. Nodir bod yr ymgeisydd wedi ystyried tir ar draws ardal ehangach ffiniau gweinyddol y Cyngor. Ystyriodd yr ymgeisydd dir sy'n eiddo i Ystad Dunraven, sy'n dangos y broses sifftio a ystyriwyd. Credwyd mai safle'r cais, sef hen waith glo brig (fel y'i hadferwyd), fyddai'r dewis gorau yn amgylcheddol. Diystyriwyd tir arall oherwydd ei fod yn Dir Comin (sy'n fwy sensitif yn amgylcheddol) neu'n agored i ardaloedd preswyl.

114. Llywiwyd y broses o ddethol safle'r cais gan yr arfarniad o'r REDP. Rhoddodd hyn drosolwg strategol o gyfyngiadau amgylcheddol a pholisi'r safleoedd amgen. Ailystyriwyd y newidiadau i ffiniau'r safle trwy broses ailadroddus a leihaodd faint y safle i ystyried canlyniadau amgylcheddol. Nododd y broses ddethol derfynol bum safle amgen ac amlygodd y prif resymau dros ddethol yr opsiwn a ddewiswyd, gan gynnwys cymharu'r effeithiau amgylcheddol. Yn hyn o beth, mae safleoedd amgen rhesymol a fyddai'n arwain at lai o niwed, dim niwed neu fudd wedi cael eu hystyried yn llawn.

115. Nid yw safleoedd amgen yn llai niweidiol mewn asesiad rhagarweiniol, er nad ydynt wedi cael eu harchwilio mor drwyadl â safle'r cais cynllunio. Mae'r asesiad o osgoi rhesymol, er y'i cyflwynwyd ar ôl i'r safle gael ei ddewis ac ar ôl i'r gwaith arolygu manwl gael ei wneud (a ddechreuodd drwy arolwg cynefin cam 1 ym mis Gorffennaf 2021), yn gadarn ac yn cydymffurfio â'r prawf osgoi, yn fy marn i.

116. Mae'r cynllun yn cynnwys mesurau i leihau'r effaith gymaint â phosibl, fel y ceisir gan gam 2. Mae'r cynnig yn cadw'r ardal ganolog o Goetir Hynafol a SINC cyffiniol Dre-Fach. Mae hyd a lled y gwaith arolygu a wnaed yn cael ei esbonio yn y GIS a'i amlinellu ym Mhennod 7 yr ES, gan gynnwys astudiaeth ddesg ecolegol, arolwg cynefin cam 1, asesiad botanegol ac arolwg glaswelltir, arolwg adar sy'n bridio, arolwg adar sy'n gaeafu, arolwg dyfrgwn ac arolwg madfallod dŵr cribog. At ei gilydd, mae CNC yn fodlon ar fethodoleg, amseriad ac ymdrech yr ES, y gwaith arolygu a'r wybodaeth ategol. Yn bwysig, mae CNC yn cytuno â'u canfyddiadau.

117. Mae'r GIS yn amlinellu cydymffurfedd â'r fframwaith DECCA a'r deuddeg safon adeiladu gyda natur yn fanwl. Ceisiwyd osgoi effeithiau lle y bo'n bosibl a, lle nad yw hynny'n bosibl, mae'r cynnig yn lleihau'r effaith i'r eithaf, ac mae'n gadarn mewn perthynas â cham 2.

118. Mae Ffigur 7.4 y Strategaeth Lliniaru Ecolegol a'r GIS yn darparu mesurau lliniaru effeithiol. Dyluniwyd y rhain i gydgysylltu'r safle â'r ardal amgylchynol. Byddai'r rhain yn cynnwys ailblannu gwrychoedd, plannu coed ychwanegol, cadw gwrychoedd aeddfed, rheoli ac adfywio priddoedd dwrlawn, pori defaid o dan baneli, gwella tir pori o dan baneli gyda chymysgedd glaswelltir neithdar gyfoethog, gosod ardaloedd coetir mewn cynllun stiwardiaeth amgylcheddol, cyflwyno lleiniau clustogi o amgylch Coetir Hynafol a rheoli ardaloedd lliniaru ar gyfer ehedyddion a chornchwiglod oddi ar y safle.

119. Mae'r pedair ardal o goetir yn cynnwys dwy ardal oddi ar y safle sydd o fewn rheolaeth y tirfeddiannwr, sydd wedi llofnodi'r rhwymedigaeth gynllunio. Mae Atodlen 1, Rhan 1 y rhwymedigaeth gynllunio, a weinyddir trwy'r LEMP, yn sicrhau bod yr LEMP yn cael ei weithredu mewn perthynas â'r holl dir lliniaru, a'i fod yn cael ei reoli'n barhaus yn unol â

mesurau amod yr LEMP (gan gynnwys cydymffurfio/monitro ac adrodd) drwy gydol oes weithredol y datblygiad.

120. Mae'r amod LEMP yn rheoli pa ardaloedd lliniaru a gwella a gynhwysir. Bydd y rhain yn ddarostyngedig i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol, ond fe'u dangosir ar ffurf ddangosol yn Ffigur 7.4 yr ES. Mae manylion rheoli mesurau gwarchod cynefin, manylion cymysgedd plannu cynefin, strategaeth bori/cyfraddau stocio ar gyfer yr ardaloedd oddi ar y safle, cynllun adfer gofal pridd, ôl-ofal cychwynnol, rheoli a chynnal a chadw'r ardaloedd hyn yn y tymor hir, archwiliad ac adolygiad o berfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol, cyflogi unigolion i wneud y gwaith, monitro'r ardaloedd hyn ac adolygu rheolaeth barhaus ar gynefinoedd bob 5 mlynedd i'w chynnal yn unol ag adroddiad i'r awdurdod cynllunio lleol, yn ofynion o'r LEMP.

121. Mae'r cynllun yn darparu mesurau lliniaru ac adfer effeithiol ac yn darparu'r dulliau i'w cyflawni, gan felly wneud yn dda mewn perthynas â cham 3.

122. Mae Cam 4 yn ymdrin â digolledu oddi ar y safle ac mae hyn yn berthnasol i ehedyddion a chornchwiglod. Amlygodd yr ES effaith arwyddocaol niweidiol fach a ragfynegwyd ar y ddwy rywogaeth. Archwilir hyn ymhellach o dan y pennawd rhywogaethau a warchodir. Er mwyn rhoi trosolwg, roedd dau bâr o gornchwiglod yn bresennol ar 31 Mawrth 2022, a chadarnhawyd bod un pâr o ehedyddion yn bresennol hefyd. Cofnodwyd bod naw rhywogaeth yn bridio/bridio o bosibl o fewn yr ardal arolygu yn 2022 (cogau, llwydiaid y berth, cornchwiglod, llinosod, breision y gorn, ehedyddion, bronfreithod, gwybedwyr mannog a drudwennod). Mae'r rhain wedi'u rhestru'n rhywogaethau â blaenoriaeth yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cofnodwyd cyfanswm o 51 o rywogaethau o fewn y safle. O'r rhain, roedd 39 yn bridio a 12 heb fod yn bridio, naill ai'n mynd heibio trwy'r safle neu'n chwilota am fwyd.

123. Effeithir ar yr adar sy'n nythu ar y tir yn bennaf, ac felly mae'r ymgeisydd wedi cynnig ardaloedd lliniaru oddi ar y safle ar gyfer ehedyddion a chornchwiglod. Mae'r ymgeisydd wedi cyfrifo'r ardal ar gyfer dadleoli paneli solar ar y safle hwn pe byddai'r ardaloedd bridio hyn yn cael eu darparu ar y safle gyda llain glustogi. Yr ymagwedd bwyllog a rhesymol fyddai darparu ardaloedd digolledu mwy o faint a gyflawnir trwy rwymedigaeth gynllunio. Ar ôl gweld yr ardaloedd hyn, maen nhw'n gymesur ac yn darparu ardaloedd gwell yn feintiol ac yn ansoddol, ac maen nhw'n ddigon ar wahân i nodweddion naturiol ac o wneuthuriad dyn sy'n darparu mannau ymgynnull ar gyfer ysglyfaethu'r rhywogaethau hyn. Mae'r ardaloedd digolledu ar gael i adar gaeafu sy'n casglu hefyd, ond, at ei gilydd, ystyrir nad yw gwerth ecolegol safle'r cais yn arwyddocaol yn yr ES, oherwydd ystyrir bod y lefel rhywogaethau'n nodweddiadol ar gyfer y cynefinoedd sy'n bresennol o fewn yr ardal arolygu.

124. Fel ymagwedd, mae CNC yn fodlon ar yr ardal ddigolledu mewn egwyddor, a'r mesurau rheoli arfaethedig a ystyriwyd, i'r graddau ei fod yn nodi y dylai'r ddarpariaeth gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y caeau digolledu'n cael eu defnyddio gan y rhywogaethau. Nodaf y pryderon a fynegwyd gan bartïon â buddiant y bydd yr ardaloedd digolledu'n destun llwybr mynediad i gynnig fferm wynt Mynydd y Gaer. Mae Mynydd y Gaer ar gam cynnar ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r ymgeisydd wedi egluro nad yw'r llwybr mynediad yn gynnig mwyach ac na fyddai unrhyw lwybr arfaethedig ar gyfer mynediad i fferm wynt Mynydd y Gaer yn effeithio ar yr ardaloedd lliniaru fel y'u nodir yn yr ES a'r rhwymedigaeth gynllunio.

125. Yn ogystal, mae'n berthnasol bod CNC, sef yr ymgynghorai statudol ar faterion ecolegol a bioamrywiaeth, yn fodlon ar ymagwedd gyffredinol yr ES at y mater hwn, yr ardaloedd digolledu a'r potensial i'w rheoli ar hyd oes y datblygiad, a rhaid ystyried bod hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun p'un a ydynt yn debygol o lwyddo i gyflawni'r nodau hynny. Gellir rhoi pwys cyfyngedig yn unig i'r gymhariaeth â cheisiadau DNS ar

wastadeddau Gwent, oherwydd gwrthodwyd rhoi caniatâd iddynt. Felly, ni ellir mesur cyfraddau llwyddiant unrhyw ardaloedd lliniaru a'u cymharu â'r cais hwn. Ni ddarperir manylion cymharu ar gyfer cyfraddau llwyddiant y mesurau lliniaru a weithredwyd ar gyfer prosiect solar Llanwern. Derbyniwyd y cynllun hwn ar adeg penderfynu ar y cais fel mesur lliniaru priodol.

126. Felly, ystyriaf fod cam 4 wedi cael ei fodloni, gan fod y cynllun yn gwneud yn dda mewn perthynas â phob agwedd arno. Mae'r GIS yn nodi'r ardaloedd hyn ar y cyd â'r rhwymedigaeth gynllunio a'r gyfres o amodau cynllunio, ac mae hefyd yn nodi cyfleoedd i sicrhau budd net i fioamrywiaeth. Gan fod yr ardaloedd sydd dan sylw'n fwy o faint ac yn ddiarffordd, gellir disgwyl yn rhesymol y bydd yr ardaloedd digolledu'n cynnal a gwella'r boblogaeth rhywogaethau o fewn eu rhychwant naturiol. Mae'r mesurau lliniaru/ardaloedd digolledu'n bodloni'r Ddyletswydd Adran 6, a'r fframwaith DECCA. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r darpariaethau hyn, ac felly hefyd CNC.

127. Ategir y cynllun gan gynlluniau rheoli a reolir trwy'r LEMP. Mae hyn yn bodloni cam 5. Mae'r cam olaf yn datgan y dylid gwrthod datblygiad os oes effaith niweidiol ar fioamrywiaeth a chadernid ecosystemau sy'n amlwg yn drech nag ystyriaethau eraill perthnasol. Mae'r cynllun yn gwneud yn dda yn erbyn yr ymagwedd fesul cam, ac nid oes angen pwyso a mesur ystyriaethau eraill perthnasol. At ei gilydd, ni fyddai'r datblygiad yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth na chadernid ecosystemau i'r graddau sy'n ysgogi cam 6.

128. Byddai'r broses o gyflawni pob agwedd ar yr ymagwedd fesul cam, gan gynnwys gwelliant, yn cael ei gweinyddu trwy ddulliau sefydledig rhwymedigaeth gynllunio ac amodau cynllunio. Mae'r rhain yn dilyn proses ailadroddus yr ES, a'r wybodaeth ychwanegol gan gynnwys strategaeth lliniaru ecolegol, strategaeth dirwedd a'r GIS.

Rhywogaethau a Warchodir

129. Wrth ymateb i bartïon â buddiant, mae'r ymgeisydd wedi egluro'r dulliau, y graddau a'r ymdrech a ddefnyddiwyd i baratoi'r arolygon adar ac arolygon rhywogaethau eraill a warchodir. Mae Atodiad 1.1 yr ES yn amlinellu datganiad arbenigedd yr unigolion sy'n gyfrifol am bob maes pwnc. Mae Pennod 7 yr ES yn ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar gan y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM 2018). Nid yw'r Cyngor na CNC wedi amlygu materion yn ymwneud â dulliau, graddau ac ymdrechion y gwaith arolygu. Er gwaethaf pryderon a fynegwyd gan breswylwyr, nid yw'r ymgynghorai statudol, sef CNC, sy'n gyfrifol am ddelio â bioamrywiaeth, wedi gwrthwynebu ymagwedd yr ymgeisydd at yr ES nac wedi gwrthwynebu'r datblygiad o ran osgoi/lleihau i'r eithaf/lliniaru/digolledu neu wella, na'r dulliau ar gyfer darparu fel y'u hargymhellir trwy'r rhwymedigaeth gynllunio a'r amodau cynllunio. Felly, gellir priodoli pwys sylweddol i hyn.

130. O ran adar sy'n bridio, cynhaliwyd chwe arolwg, ac ystyrir bod hyn yn gymesur ar gyfer cynefinoedd daearol a dŵr croyw. Cofnodwyd bod cornchwiglod yn nythu ychydig i'r de o safle'r cais ym mis Ebrill 2022. Adroddwyd bod yr ymgais i fridio wedi methu erbyn 9 Mai 2022. Ar 23 Mai 2022, tybiwyd bod y pâr o gornchwiglod yn dal tiriogaeth ac yn nythu ar safle'r cais. Roedd y cornchwiglod aeddfed yn bresennol ym mis Mehefin 2022 ac yn dangos arwyddion bod cywion bach yn bresennol. Cynhaliwyd yr arolwg ar yr adeg briodol o ran cyfnodau bridio a dodwy cydnabyddedig ac roedd yn ddigonol i gadarnhau'r ymddygiad bridio ar hyd y tymor.

131. Fel y cydnabuwyd yn yr adran flaenorol, defnyddiwyd yr ymagwedd fesul cam ynghyd â'r fframwaith DECCA. Defnyddiwyd yr ymagwedd hierarchaidd i osgoi niwed i fioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf a gweithrediad ecosystemau, wrth i'r ymgeisydd geisio rhoi ystyriaeth resymol i'r effaith ar adar sy'n bridio, yr ystyriwyd ei bod o

bwysigrwydd lleol isel yn yr ES o ganlyniad i amrywiaeth y rhywogaethau a oedd yn bresennol a pha mor doreithiog oeddent. Nid oes gennyf reswm i anghytuno â'r dystiolaeth hon, er gwaethaf pryderon preswylwyr, a byddai effaith yr ardaloedd digolledu a ddarperir trwy'r rhwymedigaeth gynllunio a'r amodau cynllunio yn sicrhau mesurau lliniaru a gwelliant priodol. Mae'r un peth yn wir o ran y pâr o ehedyddion y cadarnhawyd eu bod yn bridio ar y safle. Cyfanswm nifer yr adar sy'n bridio a gofnodwyd ar y safle oedd 39, fel yr amlinellir yn llawn yn Atodiad 7.4 Arolwg Adar sy'n Bridio, Atodiadau Cyfrol 3.

132. O ran adar sy'n gaeafu, cofnodwyd 49 o rywogaethau o fewn ffin y safle. Cynhaliwyd cyfanswm o saith arolwg o fis Medi 2021 hyd at fis Mawrth 2022. Cofnodwyd dau farcud coch yn hedfan dros y safle a chofnodwyd rhai eraill i'r gogledd o'r safle, ond ni nodwyd eu bod yn bridio ar y safle. Cofnodwyd un hebog tramor a gwalch marth i'r gogledd o'r safle neu a oedd wedi hedfan dros y safle. Cofnodwyd bod deg rhywogaeth, sef cochiaid y berllan, llwydiaid y berth, adar y to, cudyllod coch, cornchwiglod, llinosod pengoch, llinosod, ehedyddion, bronfreithod a drudwennod, yn gaeafu ar safle'r cais. Mae'r rhain yn rhywogaethau blaenoriaeth Adran 7. Yn ôl asesiad yr ES, mae lefel y pwysigrwydd daearyddol ar gyfer poblogaethau rhywogaethau'r holl adar sy'n gaeafu sydd o ddiddordeb cadwraeth yn lleol, ac nid yn uwch, ac ystyriwyd ei fod yn nodweddiadol ar gyfer y cynefinoedd sy'n bresennol yn yr ardal arolygu. Ystyrir bod hyn yn ddibwys yn yr ES. Mae CNC yn cytuno â'r canfyddiad hwn yn amodol ar osod rheolaethau priodol.

133. Er bod yr ES yn cydnabod y byddai cam gweithredol y datblygiad yn lleihau'r ardaloedd bwydo ar gyfer adar sy'n gaeafu, byddai hyn yn cael ei liniaru i ryw raddau trwy blannu glaswelltir o dan y paneli solar arfaethedig. Mae mesurau lliniaru ychwanegol yn cynnwys y cynlluniau rheoli coetir bwriadedig, lleiniau clustogi ar gyrion coetir, a chymysgedd plannu amrywiol cyfoethog y dolydd, ymylon glaswellt twmpathog gwell nesaf at wrychoedd, a rheoli gwrychoedd fel nad ydynt yn cael eu torri am 7 i 10 mlynedd. Ar ôl i'r mesurau lliniaru sefydlu dros amser, byddai argaeledd yr ardaloedd lliniaru oddi ar y safle a'u rheoli yn y dyfodol yn darparu buddion net cyffredinol i rywogaethau adar sy'n gaeafu.

134. Mae CNC yn fodlon ar yr arolwg Madfallod Dŵr Cribog (GCN). Aseswyd bod pwll sy'n bresennol tua ffin dde-ddwyreiniol y safle yn gynefin posibl gwael i gynnal GCN. Dychwelodd yr arolwg ganlyniadau negyddol ar gyfer presenoldeb GCN. Mae CNC yn croesawu'r llain glustogi 15 metr fwriadedig o amgylch y pwll. Gellir gosod mesurau bioddiogelwch trwy'r amod CEMP.

135. Mae CNC yn fodlon ar yr arolygon dyfrgwn/llygod y dŵr hefyd. Nid yw'r ffosydd cyrsiau dŵr sych ar y safle'n cynnig unrhyw werth i ddyfrgwn sy'n bwydo ac maen nhw'n anaddas i lygod y dŵr. Mae CNC yn fodlon ar fesurau priodol sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 7.6 Cyfrol 3 paragraff 4.6 yr ES ac sydd wedi'u hymgorffori yn yr amod CEMP.

136. Mae CNC yn fodlon, o'r wybodaeth yn yr ES, bod y datblygiad arfaethedig yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau ar Fritheg y Gors sy'n gysylltiedig â SoDdGA Brynna a Wern Tarw, sydd dros 2.5km i ffwrdd. Diffinnir y dirwedd swyddogaethol sy'n gysylltiedig â'r rhywogaeth fel yr ardaloedd o fewn radiws 2km o boblogaethau cofnodedig. Nid yw ACA a SoDdGA Coed Blackmill wedi'i ddynodi ar gyfer Britheg y Gors ac mae'n annhebygol o gynnwys llwybrau ar gyfer niwed i'r SoDdGA hwn na'i nodweddion.

137. Mae paragraff 7.3.74 yr ES yn nodi bod arolygon ar gyfer ystlumod sy'n cymudo ac yn chwilota am fwyd, clwydfannau ystlumod a phathewod wedi cael eu hepgor, gan na ddisgwylir effaith. Ymatebodd yr ymgeisydd i bryderon a godwyd gan CNC fel y manylir yn eitem 4, mis Mawrth 2024. Yn ogystal â'r ymrwymiadau yn yr ES mewn perthynas â

gwrychoedd, nid oes unrhyw goed yn cael eu symud ymaith. Mae manylion rheoli coetir a phrysgwydd, a manylion strategaeth oleuadau oll yn cael eu rheoli trwy amodau CEMP/LEMP a Strategaeth Dirwedd. Mae'r cynnig yn cynnwys lleiniau clustogi ehangach o amgylch y safle a gwell rheolaeth ar wrychoedd a phlannu. Byddai gwrychoedd yn cael eu rheoli yn unol â chynllun torri 3 blynedd mewn cylchdro a byddai ymylon coetir a phrysgwydd yn cael eu torri yn unol â chynllun torri 7 i 10 mlynedd mewn cylchdro.

138. At ei gilydd, roedd CNC yn fodlon ar y mesurau ychwanegol hyn sy'n amddiffyn pathewod a rhywogaethau ystlumod. Fodd bynnag, mynegodd partïon â buddiant bryderon ynglŷn ag absenoldeb arolygon nosol. Mae CNC yn nodi bod cyfleoedd nythu cyfyngedig ar y safle, yn ôl yr arolwg ystlumod a'r wybodaeth yn yr ES. Mae CNC yn nodi y gwyddys bod tylluanod gwynion yn defnyddio ffermydd solar ac ystyrir bod y darpariaethau a wneir ar gyfer rhywogaethau eraill fel ehedyddion, cadw lleiniau clustogi a llystyfiant ar y safle, yn addas ar gyfer chwilota am fwyd, pe byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio gan dylluanod gwynion.

139. Cofnodwyd un ffwng cap cwyr mewn un cae ar y safle. O ystyried arweiniad gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2008 a ffynonellau, mae'r ES yn nodi nad yw canfod un yn arwyddocaol mewn perthynas â diffinio pwysigrwydd cadwraeth y safle. Nid yw CNC wedi nodi bod y mater hwn yn arwyddocaol. Dangosodd yr asesiad glaswelltir a'r arolwg ffyngau fod y safle'n cynnwys niferoedd isel o rywogaethau a oedd yn rhywogaethau dangosol ar gyfer glaswelltir iseldir, ac ni ystyriwyd ei fod yn arwyddocaol o ran gwerth cadwraeth. Nododd yr ES hefyd fod y safle'n agos i Laswelltiroedd Corsiog Cynefin Blaenoriaeth De Morgannwg, ond mae safle'r cais y tu allan i'r ardal hon, er ei fod yn agos iddi. Mae'r canlyniadau arolwg yn yr ES yn nodi bod amrywiaeth y rhywogaethau ar y safle a pha mor doreithiog ydynt yn gyfyngedig.

140. O ran y rhywogaethau a aseswyd, nid yw'r ES o'r farn y byddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol.

141. O ran cornchwiglod, sydd o werth arwyddocaol i'r Sir, mae'r ES yn nodi na fyddai dadleoli cornchwiglod o'r safle'n arwyddocaol oherwydd byddai'r diriogaeth fridio wreiddiol yn union i'r de o'r safle ar gael iddynt o hyd, a byddai'r ardal sylweddol a ddarperir iddynt ar y tir lliniaru/digolledu yn arwain at effaith isel ar y rhywogaeth yn y tymor byr i'r tymor hir. Byddai effaith isel debyg ar ehedyddion hefyd oherwydd byddai dwy ardal gyfagos (un o fewn safle'r cais ond gerllaw'r araeau solar a'r llall oddi ar y safle ond i'r gorllewin) ar gael iddynt.

142. Byddai'r mesurau a gynigir i wella rheolaeth dir yr ardaloedd hyn yn gwella cyfleoedd chwilota am fwyd i'r rhywogaethau hyn a fyddai, yn ei dro, yn gwneud y tiriogaethau hyn sy'n fwy o lawer yn fwy deniadol i adar sy'n bridio ac adar sy'n gaeafu.

143. O ystyried bod y Cyngor a CNC yn fodlon y gellir ymdrin yn ddigonol ag unrhyw bryder sydd ganddynt, deuaf i'r casgliad na fyddai'r effeithiau a amlygwyd yn annerbyniol o niweidiol.

Materion ecolegol eraill

144. Mae'r ymgeisydd wedi darparu GIS sy'n crynhoi'r ymagwedd at y cynllun o ystyried y fframwaith DECCA a'r 12 safon adeiladu gyda natur. Mae'r ymgeisydd yn ceisio hyrwyddo cadernid ecosystemau a sicrhau buddion net i fioamrywiaeth trwy ei Strategaeth Lliniaru Ecolegol Ffigur 7.4 Cyfrol 2 yr ES: Ffigurau. Ailenwyd y ddogfen sawl gwaith, megis Ffigur 3 Cynllun Strategaeth Seilwaith Gwyrdd (a gyflwynwyd i gyd-fynd â'r GIS) a'r Strategaeth Lliniaru Ecolegol (sy'n cyd-fynd ag ymateb mis Mawrth 2024). Fodd bynnag, dyma'r un dogfennau â Ffigur 7.4 yr ES o ran cynnwys a sylwedd.

145. Mae paragraffau 4.2 - 4.21 y GIS yn amlinellu'n fanwl y mesurau ecolegol arfaethedig i wella cydgysylltedd safle'r cais â'r cyd-destun ehangach ac uniongyrchol.

146. Mae partïon â buddiant wedi codi sawl pwynt ynglŷn â buddiannau ecolegol ac wrth ymateb i'r GIS. Mae CNC wedi nodi'n gyson bod yr arolygon adaregol wedi cael eu cynnal hyd at safon briodol o ran amseriad, dull ac ymdrech. Mae CNC yn cytuno â'r canfyddiadau hyn. Nid yw'r Cyngor yn mynegi pryder ynglŷn â'r gwaith arolygu yn yr ES.

147. Ni chynhaliwyd arolygon nosol. Fodd bynnag, mae CNC yn fodlon bod cyfleoedd nythu cyfyngedig ar gael ar y safle, ac ystyrir yn gyffredinol bod cynnal a chadw a gwella lleiniau clustogi, yn ogystal â mesurau eraill, yn ddigonol ar gyfer tylluanod gwynion sy'n chwilota am fwyd pe byddent yn defnyddio'r safle. Mae'r astudiaethau bwrdd gwaith yn datgelu sawl cofnod o adar a rhywogaethau eraill yn yr ardal amgylchynol, fel yr amlinellir yn Atodiad 7.1 Cyfrol 3 yr ES: Atodiadau. O ran tylluanod gwynion, roedd y rhain dros 1,600 metr a 2,300 metr o'r safle ac, o ystyried agosrwydd SINC Dre-Fach, nid yw'r cofnod hwn yn peri syndod mewn gwirionedd. Ymchwiliwyd i Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2022. O ystyried y cyngor gan CNC ynglŷn â'r mater hwn, nid wyf wedi'm darbwyllo nad yw absenoldeb arolwg nosol yn cyfleu buddiannau ecolegol y safle hwn. At ei gilydd, ystyriaf fod yr ES yn gadarn o ran materion ecolegol.

148. Mae partïon â buddiant yn nodi na chynhaliwyd arfarniad opsiynau ac na roddwyd ystyriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn lle safle'r cais. Fel yr amlinellwyd uchod yn yr ymagwedd fesul cam, rwyf yn fodlon bod proses dethol safle strategol wedi cael ei chynnal yma, a bod safleoedd a oedd yn fwy niweidiol yn amgylcheddol wedi cael eu diystyru'n briodol o blaid safle'r cais.

149. Yn PPW, mae tir a ddefnyddiwyd i echdynnu mwynau, fel sy'n wir yn yr achos hwn, lle na ddarparwyd ar gyfer ei adfer trwy weithdrefnau rheoli datblygu, yn dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r ES yn nodi ym mharagraff 2.2.6 bod y safle'n ffurfio rhan o waith glo brig a'i fod wedi cael ei lenwi gan y weithrediaeth glo brig ym 1970 hyd at fanyleb anhysbys. I'r graddau hyn, gellid dadlau ar sail yr hyn sy'n debygol na chynhaliwyd y gwaith adfer (Nodyn 2 PPW) trwy weithdrefnau rheoli datblygu a bod y safle'n dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Er hynny, gallai'r mater fod yn bwynt dadleuadwy, ac mae'r ymgeisydd wedi dangos yn ddigonol ac yn rhesymol y dilyniant chwilio a'r cyfyngiadau y mae cynllun o'r maint hwn yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r lleoliad a ddewiswyd ar gyfer y safle yn cyd-fynd yn gyffredinol â pholisi SP13 y CDLl, ac nid yw'r Cyngor wedi dadlau yn erbyn y safle yn hyn o beth.

150. Yn fy marn i, mae'r GIS a'r cyflwyniadau ychwanegol ym mis Mawrth 2024 yn esbonio'r cynllun yn drwyadl yn unol â'r fframwaith DECCA. Mae'r asesiad yn dangos bod y cynllun wedi dilyn yr ymagwedd fesul cam. Mae'r cynllun wedi ysgogi darpariaethau paragraff 6.4.15 1a) PPW ac, yn fy marn i, mae'r rhain wedi cael eu bodloni.

151. I grynhoi, deuaf i'r casgliad y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar fuddiannau ecolegol ac, fel y cyfryw, ei fod yn cyd-fynd â PPW12, polisïau 9 a 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP13, SP17, DNP6, SP3(i) a DNP8 y CDLl.

Cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol

Y dirwedd

152. Mae'r LVIA yn amlygu nodweddion y dirwedd ac effaith weledol y datblygiad ar y safle a'r ardal amgylchynol o fewn ardal astudio 5km. Ategwyd y golygfannau cynrychioliadol yn yr ES gan olygfeydd cynrychioliadol gweledol (VRV) o'r datblygiad mewn 4 golygfan

o amgylch y safle. Mae hyn yn dangos y safle o fewn golygfa banoramig a'r VRV cyn ac ar ôl y datblygiad.

153. Mae'r Cyngor yn nodi y gellir lliniaru'r datblygiad yn dderbyniol trwy weithredu'r strategaeth dirweddu a'r ystod o fesurau eraill a gynigiwyd yn yr ES. Er y derbynnir y byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar olygfeydd o'r PRoW (CYH/55/1) sydd ar gau dros dro ac a fyddai'n cael ei gwyro o amgylch y safle datblygu, byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig yn gwella'r effaith hon yn llwyddiannus pan fyddent wedi'u sefydlu yn y tymor hir. Nodaf farn gadarnhaol y Cyngor yn gyffredinol ynglŷn â'r datblygiad hwn o safbwynt tirwedd ac effaith weledol.

154. Rwyf wedi ystyried y cynlluniau a gyflwynwyd ac mae fy arsylwadau o'r safle a'r ardal amgylchynol yn ddigonol i mi wneud fy asesiad fy hun. Rwyf wedi ymweld â'r safle, yr ardaloedd lliniaru, a'r golygfannau allweddol amrywiol o amgylch y safle. Roedd y tywydd yn gymylog ar ddiwrnod fy ymweliad, ond roedd gweledededd yn rhagorol. Rwyf wedi ystyried effaith unigol y datblygiad arfaethedig yn ei gyd-destun presennol ac effaith gronnol y datblygiad ar y cyd â phrosiectau eraill arfaethedig yn yr ardal.

155. Nid yw'r safle'n ddarostyngedig i unrhyw ddynodiad tirwedd. Mae'r ATA wedi'i lleoli pellter cymharol fyr i'r gogledd o'r safle, gan ddechrau'n fras wrth Cefn Carfan Road a chodi i Fynydd y Gaer. Mae fferm wynt bresennol ym Mynydd Maendy o fewn golwg i Fynydd y Gaer a'r dynodiad ATA, ac nid wyf o'r farn y byddai'r cynnig ynddo'i hun yn niweidio gwerthoedd a chyfanrwydd y dynodiad ATA.

156. Mae safle'r cais yn ardal o dir amaethyddol sy'n codi o'r de rhyw 100 metr uwchben lefel gymedrig y môr i oddeutu 130 metr tua'r gogledd. I'r gogledd o'r safle, mae'r tirffurf yn codi'n fwy serth i Gefn Carfan, Waun Wen a Mynydd y Gaer i'r gogledd-ddwyrain. Mae dyffryn llethrog Cwm Crymlyn rhwng Mynydd y Gaer a Waun Wen. Mae Nant Crymlyn yn llifo o'r dyffryn hwn trwy'r coetir gerllaw safle'r cais i'w ddwyrain. Mae llethrau is y Tir Comin i'r de sy'n codi unwaith eto y tu hwnt i'r B4280 Pant Hirwaun i lwyfandir llethrog uwch Tir Comin Hirwaun.

157. Mae'r ffurf adeiledig yn yr ardal yn cynnwys pentref Heol y Cyw i'r dwyrain a phocedi bach o dai teras, tai unigol, a ffermydd. Mae llonyddwch y dyffryn yn cael ei leihau gan y B4280 sy'n mynd tua'r dwyrain/gorllewin i'r de o safle'r cais. Mae'r M4 i'r de o Dir Comin Hirwaun lle mae'r tir yn codi ac yn gwastatáu. Mae wedi'i thorri i mewn i'r dirwedd yn y man hwn ac nid yw'n uniongyrchol weladwy, er bod sŵn traffig sy'n mynd heibio yn amlwg yn yr ardal. Mae nodweddion eraill o wneuthuriad dyn yn cynnwys llinell trawsyrru trydan a llinell reilffordd wedi'i datgymalu sy'n mynd tua'r dwyrain/gorllewin yn fras i'r de o'r safle ac adeilad ffatri mawr ymhellach i'r dwyrain o Heol y Cyw, a adwaenir fel Rockwool.

158. Mae'r LVIA wedi asesu'r ardaloedd cymeriad tirwedd cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol, a'r holl ardaloedd agwedd LANDMAP yn briodol, ac wedi defnyddio ZTV i lywio'r golygfannau mwyaf cynrychioliadol ac yna VRVau yn ddiweddarach. Mae'r LVIA yn asesu'r effaith o ddiwrnod cyntaf y cam adeiladu i'r camau gweithredol gydol oes ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 15, ynghyd ag effeithiau cronnol.

159. O'r hyn a welais, nodweddion unigryw'r ardaloedd cymeriad a grybwyllwyd uchod oedd tirwedd wledig donnog gyda chaeau bach/canolig eu maint, sef tir pori yn bennaf, wedi'u ffinio gan wrychoedd a blociau gwasgaredig o goetir llydanddail a chymysg. Mae presenoldeb yr M4, peilonau, ymylon trefol wedi'u diffinio'n llym a'r gwerthfawrogiad llai o lonyddwch yn amharu ar y gwerth golygfaol. Mae Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) Tir Comin Hirwaun a'r Cefnennau Amgylchynol yn cynnwys y nodweddion uchod ynghyd â chefnennau a Thir Comin cofrestredig sy'n ddi-goed yn bennaf sy'n cyferbynnu â thir amaeth amgaeëdig, glaswelltir heb ei wella, caeau brwyn, bandiau o goetir gwlyb, a'r

dirwedd donnog uchaf lle y ceir cefnennau amlwg ATA Mynydd y Gaer. Mae'r ACT yn nodi bod rhyngwelededdd cryf rhwng y ddwy gefnen a bod tai'n weledol yn Heol y Cyw o gyfeiriad Cefn Hirgoed.

160. Gwerthusir bod ardaloedd agwedd LANDMAP yn uchel ar gyfer Ardal Agwedd Tirwedd (AAT) Hanesyddol ac AAT Ddiwylliannol, ac yn gymedrol ar gyfer AATau Gweledol a Synhwyraidd a Daearegol.

161. Byddai'r paneli solar yn cael eu cyfeirio tua'r dwyrain/gorllewin yn rhan ddeheuol y safle. Byddai'r paneli solar yn y rhan ogleddol yn cael eu cyfeirio tua'r de. Mae'r paneli solar sy'n wynebu tua'r de yn uwch na'r rhai sy'n wynebu tua'r dwyrain/gorllewin ac yn codi i 3 metr o uchder. Gan eu bod yn uwch i fyny llethr y safle ac ychydig yn dalach na'r rhai ar y llethr is, mae'n anochel y byddai'r rhain yn cael effaith arwyddocaol ar amgylchoedd uniongyrchol y safle. Byddai'r effaith yn amlwg ar ochr gyferbyn y dyffryn ar dir sy'n codi i'r de, sef Tir Comin agored, di-goed yn bennaf y mae sawl hawl dramwy gyhoeddus yn ei groesi. Byddai'r caeau agored hyn ar safle'r cais yn cael eu disodli gan resi o strwythurau modern o wneuthuriad dyn, gan newid cymeriad amaethyddol y dirwedd. Byddai'r effaith hon yn ymestyn rhyw 500 metr ar draws y dirwedd amaethyddol a byddai'n amlwg o ochr ddeheuol y dyffryn o'i gweld o Dir Comin Hirwaun.

162. Ym mhanorama eang yr agwedd ar y dirwedd o bellter, byddai'r datblygiad yn ymwthiad cymharol fach i'r dirwedd. Byddai'n cael ei feddalu'n sylweddol gan y coetir cyfagos a byddai'r holl derfynau, sef gwrychoedd a choed aeddfed yn bennaf, yn cael eu gwarchod. Byddai patrwm caeau'r safle'n cael ei gadw, a byddai'r effaith hon yn meddalu wrth i'r tirweddu arfaethedig aeddfedu. Mae nodweddion eraill presennol o'r dirwedd o wneuthuriad dyn yn amlwg yn yr un olygfa. Y rhain yw adeilad ffatri mawr a gwaith i'r dwyrain o Heol y Cyw, a ffermydd gwynt rhyw 5km a 6km ymhellach i ffwrdd, yn y drefn honno, sef cynlluniau Mynydd Hugh/Maendy Portref, a Mynydd Maes-teg. O Dir Comin Hirwaun, byddai rhyngwelededdd cryf y safle ar lethrau esgynnol y dyffryn yn cael effaith gymedrol i arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd, yn fy marn i.

163. O olygfa ATA Mynydd y Gaer a safle Heneb Gofrestredig (SAM) Gwersyll Cwm Llwyd, mae ardaloedd sylweddol o safle'r datblygiad wedi'u cysgodi gan y dopograffeg a phocedi o goetir. Yn yr olygfa banoramig gyffredinol, o'i gweld o'r man hwn, byddai'r datblygiad yn cael effaith leiafsymiol a byddai'n cael ei weld yng nghyd-destun dylanwadau eraill o wneuthuriad dyn ar y dirwedd hon.

164. Mae sawl PRoW ger y safle ac mae un, sydd ar gau ar hyn o bryd, yn croesi'r safle. Mae sawl PRoW arall yn croesi'r Tir Comin. Byddai effaith sylweddol ar yr olygfa o safle'r datblygiad o dderbynyddion o ganlyniad i'r newid sy'n gysylltiedig. Ni ellir mynd ar hyd PRoW sy'n croesi'r safle ar hyn o bryd. Mae'r ymgeisydd yn cynnig llwybr amgen o'r dwyrain/gorllewin i gysylltu â PRoWau eraill o amgylch y safle. Byddai'r llwybr caniataol hwn yn destun proses gydsynio ar wahân sydd y tu allan i awdurdodaeth y cais hwn. Nid yw'r Cyngor wedi awgrymu bod y llwybr amgen yn annerbyniol mewn egwyddor. Er hynny, o safbwynt y dirwedd, byddai defnyddwyr llwybrau troed yn gweld y newid o gaeau gwledig i ddatblygiad solar yn glir, a byddai'r effaith hon yn arwyddocaol yn agos i'r safle ac yn llai ymhellach i ffwrdd lle y byddai'r effaith yn pylu o'i gweld yng nghyd-destun y dirwedd ehangach.

165. Pan fydd wedi cael ei adeiladu, ni fyddai'r datblygiad yn creu llawer o weithgarwch a fyddai'n amharu ar lonyddwch yr ardal, sydd eisoes wedi'i leihau'n rhannol gan sŵn traffig o'r M4 a gweithgarwch ffatri i'r dwyrain o'r safle. Mae lefel gymharol isel a phwyslais llorweddol yr araeau yn golygu y byddent i'w gweld yn dilyn y dopograffeg bresennol. Byddai rheoli'r defnydd o ffensys yn arwain at olwg sy'n gyson â phrif gymeriad amaethyddol yr ardal.

166. Byddai presenoldeb y datblygiad yn y dirwedd amgylchynol yn amlwg iawn o'r de ac o'r PRoWau. Yn fy marn i, er gwaethaf yr asesiad LVIA sy'n nodi effaith o arwyddocâd niweidiol bach yn gyffredinol, credaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol gymedrol ar gymeriad y dirwedd yn gyffredinol.

167. Fodd bynnag, byddai'r effaith yn lleihau'n sylweddol pan fyddai'r strategaeth dirwedd sydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn aeddfedu dros amser, yr adroddir y bydd yn cyrraedd ei heffaith lawn ym mlwyddyn 15. Wrth asesu cymeriad y dirwedd yn wrthrychol, nid yw effaith niweidiol gymedrol yn gyfystyr ag effaith arwyddocaol, a chytunaf â methodoleg ac asesiad yr ES fel yr amlinellir ym Mhennod 6.

Amwynder gweledol

168. O ran effaith weledol, byddai newid amlwg i olwg weledol yr ardal o olygfannau 1, 2, 3, 5, 6 a 9-11. Mae golygfannau ychwanegol VRVau 9-11 yn adlewyrchu fy asesiadau o ochr ddeheuol y dyffryn o Dir Comin ac o'r ffordd sy'n arwain at y Cronfeydd Dŵr oddi ar Heol Llan, Cefn Hirgoed. Byddai effaith arwyddocaol ar y golygfannau agosaf, sef 1 a 6 o'r PRoWau yn gyffredinol, a nodwyd ei bod yn effaith niweidiol fawr yn yr ES. Cydnabyddir hyn o ganlyniad i'r pellter byr i safle'r cais o'r golygfannau hyn, a sensitifrwydd uchel y derbynnydd. Byddai'r effaith ar ei mwyaf ym mlwyddyn 1 a byddai'n lleihau i effaith niweidiol gymedrol ym mlwyddyn 15 oherwydd aeddfedrwydd y tirweddu presennol ac arfaethedig.

169. Mae golygfannau 9 a 10 oddeutu 1.1km i ffwrdd o safle'r cais, ac mae golygfan 11 oddeutu 1.6km oddi wrtho. Cymerir golygfan 9 a VRV9 o lefel is o'r PRoW sy'n croesi'r Tir Comin. Fodd bynnag, pellter byr i'r de o is-ffordd Heol Llan i'r Cronfeydd Dŵr lle mae sawl PRoW yn croesi'r Tir Comin, byddai'r effaith yn arwyddocaol. Mae'r olygfan uwch hon yn meddu ar olygfa eang ac agored o safle'r cais lle mae'r rhan fwyaf o'r caeau'n gwasgaru ar draws yr olygfa. O ganlyniad i lethr uchel y safle, byddai'r datblygiad i'w weld i fyny ochr y dyffryn. Byddai safle'r datblygiad yn amlwg o'r lleoliad hwn. Ni fyddai hyn yn lleihau ar hyd oes weithredol y datblygiad gan na fyddai unrhyw faint o dirweddu aeddfed yn gwella'r effaith arwyddocaol hon.

170. Mae'r ES yn asesu'r derbynyddion gweledol dynamig sy'n mynd trwy'r ardal mewn cerbydau neu ar feic. Byddai'r derbynyddion hyn yn cael cipolwg byrhoedlog o'r safle yn unig wrth iddynt symud trwy'r dirwedd. Cytunaf â'r ES y byddai'r effaith yn fach yn y flwyddyn gyntaf ac yn ddibwys ym mlwyddyn 15 o ganlyniad i aeddfedrwydd y tirweddu arfaethedig.

171. Mae'r cynllun wedi ceisio lleihau effeithiau ar yr anheddau agosaf. Cynhaliwyd Asesiad Fflachiau a Llacharedd (Atodiad 6.2 yr ES Cyfrol 3: Atodiadau) a ddaeth i'r casgliad na ragwelir effaith o ganlyniad i sgrinio. Fodd bynnag, mae'r strategaeth dirwedd a Ffigur 7.4 yr ES Strategaeth Lliniaru Ecolegol yn cynnwys cynllun plannu sylweddol gerllaw Railway Terrace. Daw'r ES i'r casgliad, o ran golygfeydd preifat (paragraffau 6.3.54-6.3.56), na fyddai'r effaith mor arwyddocaol ar unrhyw eiddo i'r graddau a fyddai'n gwneud y cartrefi'n lle annymunol i fyw; cytunaf.

Effaith gronnol

172. Mae Prosiect Hydrogen Gwyrdd HyBont (elfen fferm solar) a fferm wynt Mynydd y Gaer yn gynigion a allai gael eu cyflwyno a ffurfio'r cynlluniau cronnol o fewn yr ardal astudio 5km.

173. Mae cynlluniau fferm wynt Mynydd Hugh/Maendy Portref, a Mynydd Maes-teg, sydd ar waith, yn ffurfio'r cefndir o olygfeydd wedi'u lleoli ar gefnennau cryn bellter o'r safle ac o'u gweld o ochr ddeheuol y dyffryn.

174. Yn yr un modd, yng ngolygfannau 4, 5, 9, 10 ac 11, fe allai fod yn bosibl gweld tri chynllun arfaethedig Ty'n y Waun, HyBont a Mynydd y Gaer o'u gweld gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r ES yn nodi y byddai'r effeithiau gweledol cronnol ar wahân ac yn cael eu gweld yn y maes gwelediad panoramig ehangach yn unig a allai gydfodoli yng ngolygfannau 9-11 yn unig. Byddai'r golygfeydd hyn yn cael eu cuddio gan y dopograffeg a'r llystyfiant presennol. Mae'r ES o'r farn y byddai effaith gronnol o arwyddocâd niweidiol cymedrol ar sensitifrwydd canolig i newid ACT 9. Yn yr ES, ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Mae'n amlwg mai'r effaith gronnol (cynlluniau presennol ac arfaethedig) fyddai dwysáu effaith weledol datblygiadau ynni adnewyddadwy yn yr ardal.

175. Byddwn yn cytuno â chasgliadau'r ES y byddai golygfeydd o'r datblygiadau presennol ac arfaethedig ar y cyd hyn yn gyfyngedig yn y maes gwelededd panoramig cyffredinol, yn enwedig wrth edrych o ochr ddeheuol y dyffryn tua'r gogledd. Byddai'r datblygiadau ar y cyd hyn yn cael eu gweld ar onglau perifferol amrywiol ac ar ymylon y maes gwelededd cyffredinol. Nid wyf o'r farn y byddai effaith gronnol niweidiol arwyddocaol.

Casgliad cyffredinol ynglŷn â'r dirwedd ac amwynder gweledol a'r effaith gronnol

176. O ran y brif ystyriaeth hon, er y deuaf i'r casgliad y bydd y cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar un olygfan, bydd effaith niweidiol gymedrol ar eraill. Deuaf i'r casgliad fod yr ES a'r LVIA yn gyson ac yn gadarn. Fodd bynnag, yn ôl fy asesiad fy hun o'r datblygiad arfaethedig, deuaf i'r casgliad na fyddai'r effeithiau ar gymeriad ac amwynder gweledol y dirwedd yn arwain at effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd amgylchynol. Fel y cyfryw, mae'r cynnig yn cyd-fynd â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau DNP4, SP13 ac SP3(a) y CDLl.

Diogelwch ar y priffyrdd

177. Cynigir cyfeirio traffig adeiladu ar ffurf cerbydau nwyddau trwm o gyffordd 36 yr M4 trwy'r A4061, y B4280 Pant Hirwaun ac i ymuno â Heol Laethog. Mae'r nodyn egluro trafnidiaeth ym mis Mawrth 2024 yn ategu'r Datganiad Trafnidiaeth yn yr ES Cyfrol 3: Atodiadau, Atodiad 2.1. Mae llwybr cyffordd 36 yn fyrrach nag o gyffordd 35 yr M4, sy'n mynd heibio i eiddo preswyl Heol y Cyw ac yn osgoi'r cerbydau nwyddau trwm sy'n gysylltiedig â ffatri Rockwool. Nodir nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r llwybr. Nodir bod cyffordd 36 yr M4 wedi cyrraedd ei chapasiti gweithredol, gan arwain at giwiau ar adegau brig. Fodd bynnag, byddai cerbydau nwyddau trwm mewn cysylltiad â thraffig adeiladu ar gyfer y cynnig yn cael eu gwasgaru ar hyd y dydd a byddai'r cynnydd mewn traffig adeiladu'n isel iawn gan gael effaith ddibwys ar y rhwydwaith.

178. Byddai'r traffig adeiladu'n arwain at chwe symudiad y dydd ar gyfartaledd, a byddai 20 o staff adeiladu ar y safle bob dydd. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth dechnegol i ddangos na all y rhwydwaith ffyrdd i'r safle ymdopi'n ddigonol â'r cynnydd dibwys mewn traffig ar hyd cam adeiladu'r gweithrediad. Byddai cyfanswm o 46 o symudiadau, a 6 symudiad nwyddau trwm o fewn y cyfanswm hwnnw bob dydd. Ni fyddai traffig yn cael ei rwystro rhag llifo'n rhydd, a chytunaf ag asesiad yr ymgeisydd. Sut bynnag, fel yr wyf wedi'i amlinellu, mae'r amod CTMP yn mynnu bod cynllun yn cael ei gytuno gyda'r Cyngor a fyddai'n gallu mynnu pa fesurau a allai fod yn rhesymol ac yn briodol. Rwyf wedi penderfynu nad oes angen y rhestr awgrymedig o ofynion yn y CTMP, a gellir cadw at y mesurau a gyflwynwyd yn y nodyn trafnidiaeth, neu ychwanegu atynt, gan nad yw cynllun yn rhestr gaeëdig, ac fe allai Awdurdod Priffyrdd y Cyngor nodi mesurau eraill.

179. Pryder arall yw lled cyfyngedig Heol Laethog ger y Bont a'r cyfyngiad pwysau ar y ffordd sy'n atal cerbydau dros 7.5 o dunelli ac eithrio mynediad. Cytunaf â'r ymgeisydd nad yw hyn yn atal mynediad i'r fynedfa adeiladu, dadlwytho ac yna dychwelyd. Mae'r

datganiad trafnidiaeth yn argymell defnyddio system neilltuo a gynhelir gan reolwr safle a all wasgaru'r amserau cyrraedd ac ymadael, a gweithredu system goleuadau traffig dros dro. Yn fy marn i, ni fyddai defnyddio'r ddau fesur yn achosi pryder o ran diogelwch ar y priffyrdd nac yn rhwystro traffig rhag llifo'n rhydd, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr ar y ffordd gerbydau. Mae'r fynedfa arfaethedig i draffig adeiladu'n dderbyniol mewn egwyddor ac mae'r awdurdod cynllunio lleol yn derbyn hyn bellach trwy gynnwys amod cynllunio.

180. Mae'r fynedfa arfaethedig wedi'i haddasu gryn bellter i'r de o'r ardal chwarae ac nid wyf o'r farn y byddai gwrthdaro'n codi â defnyddwyr eraill y ffyrdd pe byddai mesurau'n cael eu rhoi ar waith a'u rheoli yn y pen draw trwy'r amod CTMP. Mae'r mesurau a gynigiwyd yn y CTMP a'r nodyn egluro trafnidiaeth yn ddigonol i ddangos na fyddai effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y priffyrdd a diogelwch cerddwyr. Ni fyddai'r cais am balmant newydd ar hyd Heol Laethog yn gymesur nac yn rhesymol.

181. Nid wyf o'r farn y byddai'r gofynion adeiladu a gweithredu ar symudiadau traffig a'u heffeithiau ar yr ardal yn arwain at fater diogelwch cerddwyr a diogelwch ar y priffyrdd. Mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP5 ac SP13 y CDLl.

Buddion

182. Mae Polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn mynnu bod penderfynwyr yn rhoi pwys sylweddol i'r angen i gyflawni ymrwymiadau rhyngwladol Cymru a tharged y Llywodraeth o gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir trwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030. Ym Mhennod 9 yr ES ar y Newid yn yr Hinsawdd, er bod cost garbon wedi'i hymgorffori yng ngweithgynhyrchu a gosod y datblygiad arfaethedig, byddai'r cyfnod ad-dalu carbon o 11-15 mlynedd wedi cael ei gyflawni erbyn hynny. Ystyrir bod effaith oes gyfan y datblygiad arfaethedig yn effaith fuddiol sylweddol. Amcangyfrifir y bydd rhwng 235,278 a 326,709 o dunelli o nwyon tŷ gwydr yn cael eu harbed ar hyd oes arfaethedig y datblygiad o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Cyfrifwyd mai effaith nwyon tŷ gwydr adeiladu/gweithgynhyrchu/cludo'r paneli solar, y batris a'r cydrannau trydanol cysylltiedig yw oddeutu 88,834 o dunelli.

183. Mae paragraff 2.3 y Crynodeb Annhechnegol yn nodi y byddai capasiti cynhyrchu gosodedig y cynllun hyd at 40MW, gan gyflenwi trydan sy'n cyfateb i anghenion 12,551 o gartrefi bob blwyddyn, a chyfrannu at y targed o gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir trwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030. Byddai'r nwyon tŷ gwydr a arbedir bob blwyddyn yn gyfwerth ag 8,058 o dunelli, fel cael gwared ar 2,972 o gerbydau o'r ffyrdd.

184. Mae'r ES yn adrodd bod y diffiniadau hyn yn dod o ganllawiau'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol 2022, Canllaw Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar: Asesu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Gwerthuso eu Harwyddocâd (dyfynnir yr *2il Argraffiad* fel ffynhonnell ar-lein). Felly, er gwaethaf pryder partïon â buddiant ynglŷn â'r cyfrifiad hwn a'r gost garbon ymgorfforedig, ystyriaf fod y rhain yn dod o ffynhonnell awdurdodol.

185. Bwriedir i dargedau hinsawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer y system bŵer fod yn gwbl ddatgarboneiddiedig erbyn 2035. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n ffurfiol i dargedau cyfreithiol rwymol i gyflawni'r nod o allyriadau sero net. Disgwylir i'r gofynion trydan blynyddol yn y Deyrnas Unedig ddyblu erbyn 2050. Felly, mae angen cydnabyddedig i gynyddu capasiti, sicrhau cyflenwad diogel a sefydlog a chyflawni targedau ynni adnewyddadwy a sero net.

186. Bydd y System Storio Ynni Batris (BESS), a ddangosir fel cynllun dangosol, yn storio ynni adnewyddadwy yn ystod cyfnodau cynhyrchu uchel i'w ryddhau i'r grid pan fydd y galw'n cynyddu. Byddai'r BESS yn sefydlogi'r grid ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar

gyflenwad nwy i fodloni'r gofynion ar y grid ar hyn o bryd. Bydd y BESS yn storio 40MWh a byddai'r cynnig yn cynnwys is-orsaf a ddangosir ar ffurf ddangosol; cadarnheir y dyluniad terfynol gan y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu. Rheolir y BESS a'r is-orsaf gan amodau cynllunio, felly bydd y dyluniad terfynol a'r fanyleb derfynol yn cael eu cytuno gyda'r Cyngor. Byddai'r BESS yn manteisio ar newidiadau i brisiau ac amserau yn y farchnad, er mwyn sicrhau refeniw ychwanegol o arbitreisio ynni a lleihau defnydd brig. Byddai hyn, yn ei dro, yn cynyddu buddion amgylcheddol ac economaidd i'r eithaf, gan gyfateb yr ynni ffotofoltäig a gynhyrchir a storio/rhyddhau ynni o'r safle i adegau pan fo'r galw am drydan yn uchel ac yn isel.

187. Mae'r ES yn nodi y byddai'r datblygiad yn arwain at fuddion bach i wasanaethau gofal iechyd trwy leihau'r baich capasiti ar y grid a darparu diogeledd ynni, gan felly leihau'r posibilrwydd o brinder trydan neu doriadau dim cyflenwad.

188. Priodolir buddion i'r cynigion gwella yn Ffigur 7.4 yr ES ar gyfer ecoleg, rheoli glaswelltir yn well a buddion disgwyliedig i'r poblogaethau infertebratau, rheoli gwrychoedd a choetiroedd a mesurau lliniaru/digolledu oddi ar y safle ar gyfer adar sy'n bridio.

189. Byddai adeiladu'r cynnig yn cael effaith dros dro ar ddarparu cyflogaeth trwy greu swyddi adeiladu.

190. Mae gan ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel rôl bwysig i'w chwarae wrth fodloni targedau ynni adnewyddadwy'r Llywodraeth. Mae'r angen i gyrraedd y targed 70% a amlinellir ym mholisi 17 Cymru'r Dyfodol yn bwysig iawn, a'r targed 100% erbyn 2035 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'r polisi cynllun datblygu hwn a rhoddir pwys sylweddol iddo.

Materion eraill

Asedau hanesyddol

191. Mae'r ES yn cynnwys Asesiad Desg o Dreftadaeth Ddiwylliannol yng Nghyfrol 3: Atodiadau, Atodiad 8.1. Asesodd Pennod 8 yr ES y potensial archaeolegol o dan y tir, ac effeithiau posibl ar leoliadau asedau dynodedig, a daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw asedau treftadaeth o sensitifrwydd uchel na chanolig o fewn y safle. O fewn yr ardal chwilio 5km, mae 143 o adeiladau rhestredig, 16 o henebion cofrestredig (SAMau), 5 ardal gadwraeth a 4 Parc a Gardd Cofrestredig wedi'u cofnodi. Trwy ddefnyddio parth gweledol damcaniaethol, amlygwyd bod y datblygiad yn effeithio ar un ased treftadaeth. Mae SAM Gwersyll Cwm Llwyd wedi'i lleoli 1.2 km i'r gogledd-ddwyrain o'r datblygiad arfaethedig. Ystyriwyd bod yr adnodd archaeolegol o fewn y safle yn isel, gan fod y rhan fwyaf ohono wedi cael ei symud ymaith yn sgil gweithgarwch mwyngloddio blaenorol ar y safle. Mae'r ymgeisydd wedi ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent a arweiniodd at gytundeb y byddai'r potensial archaeolegol yn isel, ac y byddai rhaglen fonitro a sicrheir trwy amod cynllunio yn ystod adeiladu yn dderbyniol.

192. Ar ôl gweld y datblygiad arfaethedig o'r SAM, byddwn yn cytuno â CADW y byddai'r effaith ar yr ased hanesyddol dynodedig yn ddibwys/yn fach iawn ar leoliad heneb gofrestredig Gwersyll Cwm Llwyd. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei guddio gan lystyfiant a'r dopograffeg o'i weld o'r SAM.

193. Ni fyddai'r fista a'r golygfeydd panoramig o'r fryngaer amddiffynnol hon yn cael eu newid, felly nid wyf o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig hwn yn cael effaith niweidiol ar y cyfraniad a wneir at leoliad ac arwyddocâd yr ased hwn. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â maen prawf 6 polisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisi SP18 y CDLl.

Sŵn

194. Darparodd yr ymgeisydd Asesiad Sŵn ym mis Mawrth 2024. Mae'r pellter cymharol rhwng y derbynyddion agosaf sy'n sensitif i sŵn a'r BESS yn amrywio o 325 metr i 580 metr. Ystyriodd yr asesiad Safonau Prydeinig cydnabyddedig BS5228:2009+A1 a BS4142:2014+A1 mewn perthynas â thri cham, sef adeiladu'r ffordd a'r cyfadeilad, gosod y fframiau a'r paneli, a gosod yr is-orsaf a'r batris storio. Mae'r asesiad yn rhagfynegi y byddai'r gweithgarwch yn digwydd rhwng 07:30 o'r gloch a 18:00 o'r gloch. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd yn dymuno dechrau adeiladu am 07:00 o'r gloch a gorffen am 19:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn Nhabl 4.5 yr Asesiad, rhagfynegir y bydd sŵn adeiladu islaw 70dB(A), fel yr amlinellir yn BS5228, yn ystod pob cam adeiladu.

195. O ran sŵn gweithredol, darparwyd lefelau pŵer sain ar gyfer y peiriannau a fyddai'n cael eu gosod. Gan ddefnyddio BS4142, sy'n nodi lefelau sŵn cefndir islaw 30dB a lefelau sgôr islaw 35dB, mae'r lefelau sŵn rhagfynedig o'r datblygiad islaw'r mesurau hyn. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn nodi y gallai lefelau sain absoliwt fod yn bwysicach, a dylid nodi hefyd na chynhaliwyd arolygon sŵn sylfaenol.

196. At ei gilydd, ystyriaf fod yr asesiad yn ddigonol ac na fyddai'r lefel sŵn ragfynedig o'r datblygiad yn achosi effaith niweidiol amlwg. Er gwaethaf y casgliad hwn, gan na chynhaliwyd astudiaethau sŵn sylfaenol, ystyriaf fod amod cynllunio'n rhesymol ac yn angenrheidiol fel bod lefelau sŵn yn cael eu hasesu a'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, a phe byddai'r lefel sŵn yn mynd yn fwy na'r sŵn cefndir hyd at lefel benodedig yn unol â BS4142: 2014 +A1: 2019 'Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol', y bydd mesurau lliniaru'n cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfedd. Mae sŵn adeiladu'n cael ei reoleiddio hefyd ac mae'n angenrheidiol mewn perthynas â'r amod CEMP.

197. Fodd bynnag, deuaf i'r casgliad nad yw amser dechrau o 07:00 o'r gloch yn briodol o ystyried adeiladu a datgomisiynu mewn perthynas ag eiddo preswyl cyfagos, ac y byddai amser dechrau o 08:00 o'r gloch yn gymesur ac yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

198. Gyda'r mesurau hyn mewn cof, nid wyf o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar amodau byw meddianwyr cymdogol yn unol â pholisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP3 a DNP9 y CDLl.

Dosbarthiad tir amaethyddol

199. Mae Atodiad 2.6 yr ES Cyfrol 3: Atodiadau yn darparu Asesiad Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae holl dir y safle, bron, o fewn is-radd 3b y Dosbarthiad Tir Amaethyddol, nad yw'n cael ei ystyried yn dir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV), fel yr amlinellir yn PPW. Nododd Uned Pridd, Mawndiroedd a Chynllunio Defnydd Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru ar 5 Rhagfyr 2022 nad oedd angen arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer y safle gan ei fod yn annhebygol o gynnwys tir amaethyddol BMV. Yn ei dro, ni fyddai hyn yn arwyddocaol iawn o ran lleihau'r tir sydd ar gael i gynhyrchu bwyd ar hyd cyfnod dros dro'r caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn caniatáu i ddefaid bori o amgylch ac o dan y paneli solar, gan felly barhau â defnydd amaethyddol y safle, i ryw raddau.

Llifogydd

200. Mae'r ES yn cynnwys Strategaeth Ddraenio Asesiad Canlyniadau Llifogydd yng Nghyfrol 3: Atodiadau, Atodiad 2.2. Mae'r safle ym mharth A Mapiau Cyngor Datblygu CNC. Yn yr FMfP, mae'r safle o fewn parth llifogydd 1 ac nid yw llifogydd yn effeithio arno'n sylweddol o'r holl ffynonellau eraill cysylltiedig. Mae'r safle mewn perygl isel o lifogydd.

201. Mae'r FMfP ar gyfer Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach yn nodi bod y safle'n bennaf o fewn ardaloedd nad ydynt o fewn parth llifogydd dangosol, sy'n golygu bod y safle o fewn ardal lle y ceir tebygolrwydd o lai na 0.1% o lifogydd dŵr wyneb mewn blwyddyn benodol, sy'n cynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Y dyfnder llifogydd rhagfynedig ar hyd y ffosydd/cyrsiau dŵr cyffredin yw hyd at 300mm a 900mm yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol ar hyd y ffos/cwrs dŵr. Mae'r dyfnder mwyaf o 900mm yn cyfeirio at ddyfnder dŵr yn y ffos. Adroddir y byddai dŵr llifogydd yn gyfyngedig i'r ffos, na fyddai'n ymestyn y tu hwnt i'r ffos a bod perygl cyfyngedig o lifogydd dŵr wyneb ar y safle. At hynny, mae pellter gwahanu rhwng lleoliad y paneli solar a'r ffos, a byddai'r paneli solar eu hunain oddeutu 900mm oddi ar y tir. Felly, ni fyddai'r perygl dŵr wyneb yn fwy nag amodau tir presennol y safle, ac nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynyddu llifogydd dŵr wyneb ar y safle nac yn yr ardal amgylchynol.

202. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn ddarostyngedig i Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n gwneud Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob datblygiad newydd. Mae'n rhaid i gynlluniau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol, yn rhinwedd ei rôl fel Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), cyn i waith adeiladu ddechrau.

203. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar lifogydd a hydroleg, yn unol â pholisïau SP3 ac SP4 y CDLl. Nid oes angen unrhyw amodau cynllunio ychwanegol. Gosodir rheolaethau mewn perthynas â chyfleuster lles y cyfadeilad yn yr amod CEMP.

Adnodd Mwynau

204. Ni ystyrir y byddai'r cynnig yn arwain at unrhyw wrthdaro o bwys â pholisi ENT12 y CDLl, ac felly byddai'n cael effaith niwtral o ran yr adnodd mwynau oherwydd bod y cynnig am gyfnod dros dro, er hynny am 50 mlynedd. Yn ogystal, ni fyddai'r cynnig yn tarfu llawer ar yr adnodd glo eilaidd a gellir adfer y safle trwy amod cynllunio priodol.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

205. Mae RoWA yn nodi y bydd yr ymgeisydd yn gwneud cais i wyro llwybr troed 55. Byddai'r cais i wyro y tu allan i gylch gwaith y cais DNS ac ni chyflwynwyd Cydsyniad Eilaidd gyda'r DNS fel y gellir ei ystyried.

206. Mae ymateb yr ymgeisydd i eitem 10 ym mis Mawrth 2024 yn darparu gwybodaeth am lwybr gwyro posibl ar gyfer y llwybr troed. Fodd bynnag, mae RoWA yn fodlon i'r llwybr caniataol arfaethedig a ddangosir ar y cynllun hwn gael ei weithredu hyd nes y cytunir ar y cais i wyro. Mae'n nodi, yn y cyfamser, na ddylid gwrthod mynediad i'r cyhoedd ar hyd aliniad diffiniol y llwybr troed. Byddai hyn yn fater i'r Cyngor ei ystyried o dan reolaethau deddfwriaethol ar wahân.

207. Ystyriaf fod yr agwedd hon ar y datblygiad yn dderbyniol o ystyried y rheolaethau rheoleiddiol ar wahân a weinyddir gan y Cyngor.

Effaith llygredd golau o gerbydau ar feddianwyr Railway Terrace

208. Mae'r fynedfa arfaethedig i draffig adeiladu oddeutu 365 metr o weddau deheuol Railway Terrace ac nid oes llinell weld uniongyrchol rhwng y pwyntiau hyn o ganlyniad i'r tro yn y ffordd ac ardal o dirweddu sylweddol ychydig i'r gogledd o'r fynedfa. Mae'r fynedfa weithredol 75 metr i'r de o Railway Terrace, ond byddai traffig sy'n gysylltiedig â'r fynedfa hon yn ddibwys o ystyried y symudiadau traffig ar Heol Laethog. Byddai traffig i'r fynedfa yn y man hwn yn ddigon pell oddi wrth y teras i beidio â chael effaith sylweddol, gan y byddai'n troi i'r dde ac i ffwrdd oddi wrth y tai preswyl. Sut bynnag,

mae'r fynedfa hon yn un bresennol a sefydledig a byddai traffig yn ei defnyddio mewn cysylltiad â defnydd cyfreithlon o'r tir, a fyddai'n parhau, sef y sefyllfa wrth gefn. Yn y pen draw, byddai unrhyw lygredd golau yn nodwedd dros dro yn ystod unrhyw ymweliad.

Diffyg budd cymunedol o'r cynnig

209. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi darparu buddion lleol mewn cysylltiad â cheisiadau DNS, ond mae hefyd yn glir nad yw hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio. Felly, nid yw absenoldeb budd cymunedol yn fater tyngedfennol yn y cais DNS hwn.

Amodau a rhwymedigaeth

210. Rwyf wedi ystyried y rhestr gytunedig o amodau awgrymedig yng ngoleuni'r cyngor yng Nghylchlythyr 16/14: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu.

211. Mae'r rhestr hon yn sail i'r atodlen amodau argymelledig a amlinellir yn Atodiad A, yr wyf wedi'u mireinio a'u newid yn rhannol gan ystyried rhai mân hepgoriadau ac ymrwymiadau a wnaed yn yr ES. Maen nhw'n angenrheidiol ac yn ceisio sicrhau bod y datblygiad yn osgoi neu'n lliniaru effeithiau niweidiol posibl y cynllun.

212. Mae'r ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno ar yr amodau gan mwyaf. Lle y ceir meysydd anghytundeb, rwyf wedi amlinellu fy ymagwedd. Yn y rhan fwyaf o'r amodau, maen nhw wedi cael eu haileirio, ac mae'r drefn yn wahanol, fel bod y caniatâd yn parhau am 50 mlynedd, ac mae'r amodau datgomisiynu wedi cael eu symud fel eu bod ar ôl yr amod ynghylch cynlluniau cymeradwy. Rwyf wedi aileirio amod rhif 4 ynghylch datgomisiynu (fel y mae'n ymddangos yn yr adroddiad) fel bod eglurder ynglŷn â phryd y dylid cyflwyno'r cynllun, ond rwyf wedi penderfynu bod 6 mis yn ddigonol. Fodd bynnag, credaf fod mesurau diogelu coed yn ffurfio rhan o'r cynllun adfer a bod cynllun plannu ôl-ofal sy'n sicrhau bod coed sy'n afiach ac wedi'u difrodi yn cael eu hamnewid yn unol â'r amod safonol ynghylch gweithredu mesurau tirweddu.

213. Mae Amod 2 bellach yn cynnwys yr atodlen arolwg coed i'w darllen ochr yn ochr â'r cynllun cyfyngiadau coed. Mae Amod 3 wedi cael ei aileirio i ddarparu amserlen 28 niwrnod.

214. Mae Amodau 5 a 6 wedi cael eu haileirio hefyd, ond mae rheolaeth gymesur ar amseru manylion, ac ni welaf unrhyw reswm pam y dylid darparu hyn cyn dechrau. Cytunaf â'r awdurdod cynllunio lleol ynglŷn â'r amser dechrau (Amod 7) o ystyried yr asesiad sŵn ac am y rhesymau a amlinellwyd gennyf yn yr adroddiad. Fodd bynnag, ni chyfeirir at ddatgomisiynu, ac fe ddylai hyn gael ei gynnwys oherwydd fe allai datblygiad ychwanegol ddigwydd yn agosach i'r datblygiad arfaethedig ac nid oes rheolaethau ar waith ar gyfer y gwrthdaro posibl hwn rhwng defnyddiau.

215. Mae Amod 8 yn hepgor cyfeiriad at y cyfadeilad o ran adeiladu a datgomisiynu. Mae mesurau eraill a oedd yn ofynion yr ymatebion blaenorol gan CNC wedi cael eu hepgor ynghyd â chyfeiriad at ymchwiliad archaeolegol, fel yr argymhellwyd yn yr ES ac a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Ni welaf unrhyw reswm i ychwanegu 'ond heb fod yn gyfyngedig i' gan nad yw hyn yn darparu digon o eglurder.

216. Mae Amod 9 wedi'i symleiddio gan fod yr awdurdod cynllunio lleol yn rheoli'r hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun sydd i'w gytuno ac mae'r rhan fwyaf o'r materion yn berthnasol i'r amod CEMP. O ran Amod 10 ynghylch LEMP, cynhwysaf ofyniad bod unrhyw fesurau monitro ac adolygu yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i reoli'r cynefin yn cael eu cynnal ac nid dim ond eu hadrodd i'r awdurdod cynllunio lleol.

217. Mae Amod 11 yn debyg i'r testun yn y rhestr gytunedig. Mae Amod 12 wedi cael ei aileirio. Ystyriaf fod darpariaeth yn cael ei gwneud i sicrhau bod manylion yn cael eu darparu ar gyfer mesurau diogelu coed a bod y rhain yn cael eu cynnal yn ystod adeiladu'r datblygiad. Rwyf wedi cyfeirio at y strategaeth dirwedd gymeradwy yn Amod 13, oherwydd dyma'r mân wahaniaeth rhwng y partïon. Rwyf wedi cyfuno'r amodau awgrymedig ynglŷn ag ymchwilio i weithgarwch mwyngloddio ar y safle gan eu bod yn gorgyffwrdd o ran cynnwys a sylwedd. Mae Amod 15 yn aros heb ei newid heblaw am fynnu bod mesurau lliniaru'n cael eu gweithredu pe byddai terfynau sŵn yn cael eu torri.

218. Mae'r newidiadau hyn i amodau yn gymesur ac yn rhesymol ac nid ydynt yn gwneud mwy na'r hyn a argymhellwyd yn y cais a gyflwynwyd.

219. Ystyriaf fod y rhwymedigaeth gynllunio Adran 106 yn angenrheidiol, yn ymwneud â chynllun y datblygiad arfaethedig ac yn gysylltiedig o ran graddfa a math, ac felly ei bod yn bodloni'r profion a amlinellir yn Adran 122(2) Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 a Chylchlythyr 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio. Fel y cyfryw, rhoddaf bwys sylweddol i'r rhwymedigaeth wrth benderfynu ar y cais.

Casgliadau

220. Rhoddir pwys sylweddol i fuddion y cynnig yn y cydbwysedd cynllunio o ystyried cydymffurfedd y datblygiad â pholisi 17 Cymru'r Dyfodol. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy mewn ffordd sy'n taro cydbwysedd â gwarchod buddiannau eraill perthnasol.

221. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r effeithiau ar gymeriad ac amwynder gweledol y dirwedd yn arwain at effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd amgylchynol. Deuaf i'r casgliad y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar fuddiannau ecolegol, ar yr un pryd â chydnabod y pryder a fynegwyd gan bartïon â buddiant ynglŷn â'r mater hwn. Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol ar ddiogelwch ar y priffyrdd a byddai unrhyw effeithiau yn ystod adeiladu am gyfnod dros dro ac yn oddefadwy.

222. Nid oes ystyriaeth arall berthnasol a adroddwyd sy'n ddigon pwysig i newid fy nghasgliad bod y cynnig yn cydymffurfio'n llwyr â'r cynllun datblygu, Cymru'r Dyfodol a'r CDLl.

223. Mae achos clir dros roi caniatâd cynllunio i'r datblygiad gan ei fod yn cydymffurfio â pholisïau 9, 17 a 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau SP13, SP17, SP3, SP4, SP5, SP18, DNP1, DNP4, DNP6, DNP8, a DNP9 ac ENT12 y CDLl.

Argymhelliad

224. Bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar gyfer y fferm solar gyda chyfleuster batris storio a llawr caled cysylltiedig a datblygiad atodol, yn ddarostyngedig i'r amodau sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A.

225. Wrth ddod i'm hargymhelliad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Rwyf o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

Iwan Lloyd

AROLYGYDD

ATODIAD A: Atodlen Amodau Cynllunio Argymelledig

1) Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

   Rheswm: I gydymffurfio â gofynion Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2) Yn ddarostyngedig i ofynion amodau eraill sydd wedi'u hatodi i'r caniatâd hwn, bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei gynnal yn unol â'r cynlluniau canlynol:

   i. ES Ffigur 1.1 Cynllun Lleoliad Safle

   ii. ES Ffigur 2.1 Cynllun Gosodiad Safle

   iii. 2023-06-29 - APP - JSL3757_700A-703A Cynllun Cyfyngiadau Coed ac Atodlen Arolwg Coed

   Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal o fewn y manylion a gyflwynwyd ac yn unol â Pholisïau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

3) Bydd y caniatâd a roddir drwy hyn yn para am gyfnod o 50 mlynedd o ddyddiad allforio pŵer trydan am y tro cyntaf (y dyddiad allforio cyntaf) o'r fferm solar i'r rhwydwaith grid trydan. Bydd cadarnhad ysgrifenedig o'r dyddiad allforio cyntaf yn cael ei anfon at yr awdurdod cynllunio lleol o fewn 28 niwrnod o'r dyddiad allforio cyntaf.

   Rheswm: I ddiogelu cymeriad a golwg yr ardal yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3 ac SP13 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

4) O fewn 6 mis o'r dyddiad dod i ben 50 mlynedd neu ar ôl i drydan beidio â chael ei gynhyrchu o'r fferm ynni solar a ganiateir drwy hyn am gyfnod parhaus o 6 mis (pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf), bydd yr holl adeiladau, cyfarpar/ offer/ peiriannau yn cael eu symud ymaith a bydd y tir yn cael ei adfer i ddefnydd amaethyddol yn unol â chynllun adfer ac ôl-ofal, i gynnwys mesurau diogelu coed, a gyflwynwyd i'r awdurdod cynllunio lleol ac a gymeradwywyd ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy. Bydd unrhyw goed, gwrychoedd neu blanhigion a blannwyd yn rhan o'r cynllun adfer ac ôl-ofal cymeradwy sy'n marw, yn cael eu symud ymaith neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n mynd yn ddifrifol afiach o fewn 5 mlynedd o ddyddiad cwblhau'r cynllun cymeradwy yn cael eu hamnewid â rhai eraill o faint tebyg a rhywogaeth debyg yn ystod y tymor plannu nesaf, oni chytunir fel arall gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

   Rheswm: I ddiogelu cymeriad a golwg yr ardal yn unol â Pholisïau SP3 ac SP13 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033

5) Er gwaethaf Amod 2, ni cheir codi unrhyw ran o'r araeau solar, yr is-orsaf, y ffensys a'r seilwaith cysylltiedig ar y safle hyd nes bod manylion uchderau a lleoliad pob aráe solar, manylion a gorffeniadau deunyddiau'r is-orsaf, y ffensys a'r seilwaith atodol/cysylltiedig wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

   Rheswm: Er mwyn amwynder gweledol ac yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

6) Er gwaethaf Amod 2, ni cheir codi unrhyw ran o'r strwythurau storio ynni batris hyd nes bod manylion a gorffeniadau deunyddiau'r system storio ynni batris wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

   Rheswm: Er mwyn amwynder gweledol ac yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

7) Ni chaiff gwaith adeiladu a datgomisiynu ddigwydd y tu allan i 08:00 o'r gloch i 19:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener, a 08:00 o'r gloch i 13:00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn, ac nid ar unrhyw adeg ar ddydd Sul na Gwyliau Banc.

   Rheswm: Er mwyn amwynder preswyl ac i gyd-fynd â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3 a DNP9 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2023.

8) Ni chaiff unrhyw waith clirio safle nac adeiladu ddigwydd hyd nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y CEMP yn cynnwys:

   a. Cynllun gosodiad safle adeiladu/datgomisiynu sy'n dangos lleoliad cyfadeiladau adeiladu/dymchwel y safle, ardaloedd storio, trefniadau ar gyfer parcio cerbydau gweithwyr y safle ac ymwelwyr, lleoliad ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer llwytho, dadlwytho, a storio peiriannau a deunyddiau, manylion swyddfa'r safle/unedau lles a gwaredu dŵr budr cysylltiedig,

   b. Manylion unrhyw ffensys diogelwch neu balisau o amgylch y safle,

   c. Mesurau atal a rheoli llygredd, gan gynnwys mesurau i reoli allyriadau llwch a baw, ac i atal llygru cyrsiau dŵr,

   ch. Cyfleusterau golchi olwynion a mesurau i osgoi dyddodi mwd, llwch, neu falurion eraill ar y briffordd,

   d. Cynllun i ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o gloddio, gwaith adeiladu a datgomisiynu,

   dd. Manylion mesurau gwarchod rhywogaethau sydd i'w defnyddio yn ystod camau adeiladu a datgomisiynu'r datblygiad, rheoli rhywogaethau goresgynnol, manylion rheoli pridd o ran stripio, storio a gwella uwchbridd i'w ailddefnyddio,

   e. Manylion goleuadau arfaethedig i'w defnyddio yn ystod y camau adeiladu, gweithredol a datgomisiynu, gan gynnwys mesurau lliniaru, a fydd yn sicrhau bod cynefin newydd a chynefin a gedwir ar gyfer pathewod yn cael ei warchod rhag gollyngiad golau,

   f. Manylion cynllun ymchwilio ysgrifenedig, sy'n amlinellu strategaeth samplu, adrodd, ac archifo palaeo-amgylcheddol, dulliau ac amseru gweithredu gwaith yn unol â'r Safonau a'r Canllawiau perthnasol a osodwyd gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr, gan gyflwyno copi o'r adroddiad canlyniadol i'r awdurdod cynllunio lleol ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent,

   ff. Manylion offer sydd i'w defnyddio, gweithrediadau sydd i'w cynnal, lefelau sŵn a dirgryniad rhagfynedig wrth y derbynyddion agosaf sy'n sensitif i sŵn, yn unol â BS5228 (Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored) ac unrhyw fesurau lliniaru sy'n ofynnol i leihau sŵn mewn perthynas â derbynyddion cyfagos sy'n sensitif i sŵn.

   Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn bioamrywiaeth ac amwynder preswyl yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3, SP13, SP17, DNP6 a DNP8 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

9) Ni chaiff unrhyw waith clirio safle nac adeiladu ddigwydd hyd nes bod Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac yn unol â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3 ac SP5 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

10) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes bod Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd yr LEMP yn cynnwys:

a. Cynllun sy'n dangos yr holl ardaloedd lliniaru a gwella ecolegol, gan gynnwys cynefin pathewod sydd i'w golli, ei gadw, a'i greu, ac ardaloedd lliniaru oddi ar y safle ar gyfer cornchwiglod ac ehedyddion. Bydd y cynllun yn nodi maint a lleoliad wrth raddfa briodol,

b. Manylion amseriad, camau, a hyd mesurau gwarchod rhywogaethau (gan gynnwys pathewod, cornchwiglod, ac ehedyddion) a chynefinoedd,

c. Manylion cynigion i wella cynefinoedd a gedwir, gan gynnwys cymysgeddau a manylebau plannu, cynllun gofal pridd ac adfer (ar gyfer yr ardaloedd lliniaru oddi ar y safle a strategaeth bori a chyfraddau stocio),

ch. Manylion ôl-ofal cychwynnol a rheoli a chynnal a chadw tymor hir,

d. Archwiliad Cydymffurfio Ecolegol, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol,

dd. Yr unigolion sy'n gyfrifol am wneud y gwaith,

e. Manylion mesurau i atal neu leihau dal neu ladd yn ddamweiniol,

f. Cynigion ar gyfer monitro cyflwr cynefin a gedwir ac unrhyw gynefin newydd, i lywio rheoli cynefinoedd yn barhaus,

ff. Monitro ac adolygu mesurau rheoli cynefin yn barhaus i'w gynnal yn unol ag adroddiad sydd i'w gyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol bob 5 mlynedd.

Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn lliniaru a gwella ecolegol ac i gyd-fynd â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3, SP4, SP13 a DNP6 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

11) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes bod manylion cynllun ar gyfer mynedfa adeiladu dros dro oddi ar Heol Laethog, sy'n cynnwys lleiniau gweledegd, amseriad y gwaith, ac adfer y fynedfa ar ôl adeiladu, wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac i gydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3 ac SP5 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

12) Er gwaethaf Amod 2, ni chaiff unrhyw waith clirio safle nac adeiladu ddigwydd hyd nes bod Strategaeth Dirwedd wedi cael ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y Strategaeth Dirwedd yn cynnwys:

    a. amserlen plannu coed a gwrychoedd newydd sy'n rhoi manylion maint a nifer y rhywogaethau,

    b. manylion coed a gwrychoedd presennol sydd i'w cadw,

    c. manylion ac amseriad mesurau diogelu coed a lleoliad rhwystrau diogelu coed yn ystod adeiladu'r datblygiad.

    Bydd y Strategaeth Dirwedd gymeradwy yn cael ei chynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

    Rheswm: Er mwyn amwynder gweledol ac i gydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3, SP17 a DNP8 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

13) Bydd yr holl blannu a gynhwysir yn y strategaeth dirweddu gymeradwy yn cael ei wneud dim hwyrach na'r tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau, a bydd unrhyw goed neu blanhigion sy'n marw, yn cael eu symud ymaith neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n mynd yn ddifrifol afiach o fewn 5 mlynedd o gwblhau'r datblygiad yn cael eu hamnewid â rhai eraill o faint tebyg a rhywogaeth debyg yn ystod y tymor plannu nesaf.

    Rheswm: Er mwyn amwynder gweledol ac i gydymffurfio â Pholisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3, SP13, SP17 a DNP8 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

14) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes bod manylion gweithgarwch mwyngloddio blaenorol ar y safle, dyluniad a lleoliad unrhyw orsafoedd/strwythurau aráe solar y mae mynedfeydd pyllau'n effeithio arnynt, y mesurau unioni sy'n angenrheidiol i sicrhau sefydlogrwydd, ac amseriad y gwaith, wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

    Rheswm: Er mwyn iechyd a diogelwch ac i gydymffurfio â Pholisïau SP3 a DNP9 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.

15) Ni chaiff lefelau sŵn y safle wrth yr eiddo preswyl agosaf nad yw'n gysylltiedig yn ariannol (mewn amodau maes rhydd) sy'n bodoli'n gyfreithlon ar adeg y caniatâd cynllunio hwn fynd yn fwy na 4dB yn uwch na'r lefel sŵn cefndir gynrychioliadol (sŵn cefndir a fesurir yn nhermau LA90). Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno cadarnhad i'r awdurdod cynllunio lleol bod y terfyn sŵn uchaf yn cael ei gyflawni o fewn 2 fis yn dilyn amodau gweithredu arferol y safle. Os bydd y wybodaeth yn cadarnhau bod y terfyn sŵn yn cael ei dorri, bydd y gweithredwr yn cynnig ac yn gweithredu mesurau i liniaru'r sŵn er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r terfyn lefel sŵn uchod. Bydd mesuriadau ac asesiadau'n cael eu gwneud yn unol â BS 4142: 2014 +A1: 2019 'Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol'. Bydd lefel sŵn y safle'n cael ei mynegi fel LAeq 1 awr yn ystod y dydd (h.y. rhwng 0700 a 2300 o'r gloch) ac fel LAeq 15 munud yn ystod y nos (h.y. rhwng 2300 a 0700 o'r gloch).

    Rheswm: Er mwyn amwynder yr ardal, yn unol â gofynion perthnasol Polisi 18 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisïau SP3 a DNP9 Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033.